


Cymraeg Safon Uwch – **Help Llaw**
gydag astudio

Dan Gadarn Goncrit



gan Nerys Llywelyn Davies ac Eirlys Roberts

@ebol

Cydnabyddiaethau

Dyluniwyd gan **Stiwidio Ceri Jones**, stiwidio@ceri-talybont.com
Paratowyd gan **Atebol Cyfyngedig**, Adeiladau'r Fagwyr,
Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth, Ceredigion SY24 5AQ
www.atebol.com

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dan Gadarn Goncrit

Yr awdur

Ganwyd Mihangel Morgan yn Aberdâr. Mae'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Aberystwyth, yn darlithio ar lenyddiaeth yr ugeinfed ganrif. Ei nofel gyntaf arloesol oedd *Dirgel Ddyn* a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 1993. Cyhoeddwyd *Dan Gadarn Goncrit* yn 1999. Cyhoeddwyd ei seithfed nofel, *Cestyll yn y Cymylau* yn 2007.

Mae'n awdur pum cyfrol o straeon byrion a chyfrolau o gerddi hefyd.

'Dychanwr realidd ... [Mae'n] tynnu stumiau ar y traddodiadol a'r cydymffurfiol ... Drylliwr delwau yw Mihangel Morgan, fandal o lenor ... un na ellir ymddiried ynddo i beidio â gwneud ffyliaid ohonom i gyd ... mynd dros ben llestri er mwyn parodio ... sylwebydd cymdeithasol.' (John Rowlands)

Plot ac Adeiladwaith

Disgrifir hi fel nofel polyffonig – nifer o lynnau yn gwau trwy'i gilydd.

Mae pedwar prif blot yn y nofel, yn dilyn hanesion:

1. Y prif gymeriad, Maldwyn Taflun Lewis, sy'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerefydd a'r digwyddiad sy'n newid ei fywyd.
2. Pwdin Mawr a'i wraig Mama Losin, sy'n cadw tŷ gwely a brecwast yn Aberdyddgu.
3. Tanwen, merch Mal, a bachgen ifanc y mae hi'n ei helpu.
4. Alys sy'n dod i Aberdyddgu i chwilio am ei chariad, Patric, sy wedi diflannu.

'Cyd-blethu edefynnau'r pedwar plot sy'n rhoi bod i'r nofel ac ar ei diwedd sinistr dônt ynghyd yn glymau annatod (am yddfau'r dihirod).' (Angharad Price)

Mae tair rhan i'r nofel, fel drama neu o bosibl ffilm, gyda theitlau diddorol i'r rhannau:

Rhan 1 “Y Tywydd dros y tymor hir” – yn cyflwyno’r cymeriadau a’r ddamwain.

- agor a chloi gyda’r ddamwain
- cyflwyno’r 4 plot:
 1. Mal yn taro’r ferch fach ... Toni’n colli cath ... Mal y darlithydd ... Mal a’r butain.
 2. Tanwen a’r digartref – y llanc a’i gi.
 3. Pwdin Mawr a Mama Losin.
 4. Mared – y dirgelwch o’i chwmpas.

Sylwadau ar adeiladwaith ac arddull

Pennod 1

Arddull flodeuog gyda llawer o ansoddeiriau a delweddau yn creu awyrgylch foethus, ‘ysgrifennu ffuantus a diddychymyg ... mynd dros ben llestri er mwyn parodio’ yn ôl Gwenllian Dafydd, adeiladwaith sy’n creu tyndra.

Delfryd Mal yma yw bod yn rhydd – ‘hedfan rhwng y sêr’. Bydd mwy a mwy o reswm dros ei ddyheu yn nes ymlaen. Yng nghwrs y nofel fe gawn fod sawl cymeriad arall hefyd yn dyheu am fod yn rhydd, am gael dianc.

Mae atgof Mal am ddrama ysbryd yn awgrymu’r aralfydol a’r sôn am anifeiliaid y chwedlau yn ein denu i fyd hud a lledrith. Ceir llawer o gyfeiriadaeth.

Sylwer ar yr ailadrodd: ‘Dim byd. Dim ond dŵch ... Dim ond dŵch ... Dim byd ond tywyllwch ...’
A yw brawddeg olaf y bennod yn creu gwrthbwynt effeithiol?

Pennod 2

Pentyrru ansoddeiriau. Amrywio hyd brawddegau. Deunydd effeithiol iawn o frawddegau byrion: ‘Roedd hi’n farw. Dim dwywaith. Merch fach bert. Plentyn.’

Ailadrodd y gair ‘dim’ i bwysleisio:

‘Chawsai hi ddim siawns. Dim siawns i brifio a byw, dim gyrfa, dim carwriaethau, dim siomedigaethau ...’

(Sylwch fel mae’r awdur yn defnyddio’r dechneg yma sawl gwaith yng nghwrs y nofel.)

Pennod 3

Mae'r frawddeg gyntaf yn creu tyndra trwy beri i ni feddwl bod Mal yn y ddalfa. Mae'r frawddeg olaf yn hynod arwyddocaol – 'bywyd wedi ei newid yn llwyr ...' Dyma brif thema stori Mal.

Pennod 4

Yma cyflwynir llinyn storiol arall – y llanc digartref. Ceir darlun trist o sefyllfa'r di-waith sy'n byw ar y stryd ac agwedd cymdeithas tuag atynt.

Pennod 5

Yr argraff gyntaf a gyfleir yw fod yma ddilyniant o Bennod 2 – mae yma fam yn galaru ar ôl ei merch fach. Yna down i ddeall mai gwraig Mal sy'n galaru am ei chath. Cam-arwain y darllenydd mae'r awdur yma trwy gyfosod y ddwy farwolaeth. Techneg arall yw'r defnydd o gamsyniad teimladol (*pathetic fallacy*) – 'Fel pe i ychwanegu at ei thristwch roedd hi wedi dechrau bwrw glaw' – adlais o gerdd Syr John Morris Jones *Cwyn y Gwynt* –

Pam y deui wynt i wyllo

At fy ffenestr i?

Dywed im, a gollaist tithau

Un a'th garai di?

Eironi – Toni yn teimlo fel llawryf (llofrudd) ond y llofrudd go iawn yw Mal sy'n cynllwynio i osgoi cydnabod hynny. Mae'r frawddeg olaf eto'n arwyddocaol, yn gofyn y cwestiwn pwysig 'Pwy oedd hi?'

Pennod 6

Cyflwynir Pwddin Mawr a Mama Losin. Mae yma elfennau iasoer – yr ardd 'o gwmpas y greigfa ... mae 'na hen sgerbydau blodau.' Beth yw arwyddocâd 'rhoi bwyd i'r adar'? 'Darllen fy sêr'?

Pennod 7

Dilyniant o Bennod 5 – eironi'r sefyllfa – marwolaeth cath/merch. Adleisio Pennod 6 – mynd i'r ardd, y bwrdd brecwast, pytiau o'r newyddion – yn rhoi undod i'r plot.

Portreadau crachaid, pwysigrwydd pethau materol. Mal yn gorfod gyrru'r Metro bach – symbol i gyfleu ei fod yn dechrau disgyn yn y byd.

Pennod 8

Dyma gyflwyno Tanwen yn ei bwthyn, a'i gardd 'heb flodyn ym mis Tachwedd' cf. Pennod 6 'sgerbydau blodau'.

Eironi – 'Ceir cyflym ... Byddai rhywun yn siŵr o gael ei fwrw l lawr a'i ladd.'

Mae rhai o lynnau'r nofel yn dechrau dod ynghyd yn y bennod hon.

Pennod 9

Mal wrth ei waith yn y Brifysgol – pennod sy'n llawn dychan.

Pennod 10

Pwdin Mawr wrth ei waith. Portread o ddyn ffaidd, barus, diog.

Pennod 11

Llif meddyliau Maldwyn yn ceisio rhesymu ynglŷn â'i weithred yn lladd y ferch fach. Mae brawddeg olaf y bennod yn ein gadael ar fin dibyn (*cliffhanger*) gyda sylw Toni: "Maldwyn, dw i'n gwbod y cyfan."

Pennod 12

Portread o drueni'r digartref a'r di-waith a darlun o'r gwrthdaro ieithyddol yng Nghymru gyfoes a'r rhagfarn hiliol.

Pennod 13

Pennod sy'n llawn amwysedd ac eironi. Sylwch hefyd ar yr amrywiaeth yn y defnydd o'r iaith – tafodiaith, bratiaith a iaith safonol. Pwdin Mawr a Mama Losin yn croesawu Patric 'fel y mab afradlon' a'i watsh Mickey Mouse yn creu argraff.

Pennod 14

Mae'n agor yn ddramatig: "OND, BLE MAE HI?"

Yna llif meddyliau y fam yn gofyn cwestiwn ar ôl cwestiwn iddi hi ei hun. Mae hi'n llawn euogrwydd ac anobaith: ... gweld penglog Angau ym mhobman ... cf. Pennod 1.

Pwy yw'r fenyw a beth yw'r dirgelwch o'i chwmpas?

Pennod 15

Datblygu stori Tanwen a datgelu ychydig o hanes Mare, digon i ennyn mwy o chwilfrydedd yn Tanwen a'r darlennydd.

Pennod 16

Perthynas Mal a Toni. Dychanu a beirniadu sefydliadau a phobl sy'n ymwneud â sefyllfa'r iaith.

Pennod 17

Ailadroddir elfennau o Bennod 1 – rhoi undod i'r plot. Naws arallfydol yn adleisio tynged Blodeuwedd. Cloi Rhan 1 trwy bwysleisio'r gyfrinach fawr gan ennyn ein chwilfrydedd – does neb wedi dweud "Fy merch i oedd hi."

Sylwer ar yr amwysedd 'fel rhith' ac yna'r ailadrodd, popeth yn negyddol 'doedd neb yn gwybod ...' a'r 'Dim ffrindiau, dim perthnasau, dim cymdogion'. (cf. Pennod 1)

Ar ddiwedd Rhan 1 mae'r darlennydd yn dyfalu:

- Beth yw arwyddocâd yr atgof am y ddrama arswyd?
- A yw cyfrinach Mal yn mynd i gael ei datgelu?
- A yw priodas Mal a Toni'n debyg o ddal y straen?
- Beth fydd yn digwydd i Tanwen a'r llanc?
- A yw Pwdin Mawr a Mama Losin yn real?
- Beth yw cyfrinach Mared?
- Pwy yw'r ferch fach? Pam nad oes neb yn ei hawlio?

Rhan 2 “Yr Heol Dywyll”

Datblygu'r 4 plot:

1. Mal yn methu anghofio'r ferch fach, yn palu celwyddau, yn delio â bygythiad ei fyfyrwyr ac yn penderfynu dianc, ar ôl gweld fod ei wraig wedi ei adael.
2. Elfennau sinistr yn dod i'r amlwg yn hanes Pwddin Mawr a Mama Losin.
3. Byd Tanwen yn gwella – ei lluniau yn gwerthu, Camel a Jaco wedi dod â lwc dda iddi.
4. Camel yn gweld merch fach ddieithr.

Sylwadau ar adeiladwaith ac arddull

Pennod 1

Defnydd o iaith babanod – ai fel masg i guddio cymeriadau a syniadau sinistr?

Diweddglô awgrymog iawn – “... mae lot o waiff ... Gwaiff clirio lan ar ôl yr holl hwyl neiffiwr.”

Pennod 2

Darlun dychanol o'r Brifysgol.

Pennod 3

Pennod ddi-baragraff yn cyfleu llif meddyliau Ellis Wynne – astudiaeth o gymdeithas – moesoldeb – darlun o fywyd biwrocratig yr oes. Mae'r dyfyniadau o ganeuon yn creu dolen gyswllt â gweddill y nofel.

Pennod 4

Adwaith staff y coleg i'r newyddion am y ddamwain. A yw'r sylwadau yn gyrru Maldwyn i lawr 'yr heol dywyll'?

Pennod 5

Dechrau dramatig – 'Rhaid iddo fynd heddi' ond y diweddglô'n gwrthgyferbynnu – Tanwen yn penderfynu mai Camel a Jaco fyddai gwrthrychau ei llun nesaf.

Pennod 6

Pennod ynysig yn cyflwyno cymeriadau newydd. Cyfeirir at gerddoriaeth eto i roi undod i'r plot.

Pennod 7

Cerddoriaeth eto'n amlwg – *Warm Leatherette*. Annealltwriaeth rhwng Mal a Lois – hi'n chwarae'r tîp i geisio'i blesio ond y gerddoriaeth yn mynd ar ei nerfau.

Pennod 8

Gwrthgyferbynnu – y noson dywyll honno a'r noson hon – 'Goleuadau. Nifer ohonyn nhw.'

Pennod 9

Dilynant o Bennod 6. Pwysleisio unigrwydd Alys gan ei huno â'r ferch fach a laddwyd – 'Teimlai fel merch fach ar goll'. Cysylltu llinynnau'r nofel:

- Alys yn hel atgofion am ei chariad, Patric, roeddent ill dau yn dwlu ar Mickey Mouse.
- Mae'r gyrrwr tacsï yn awgrymu llety i Alys – tŷ Pwdin Mawr a Mama Losin.
- Mae Alys yn gweld y ferch ddieithr oedd ar y trê'n yn curo ar y drws.
- Mae'r gyrrwr yn adrodd hanes lladd y ferch fach wrthi.

Nodwn eironi sylw'r gyrrwr tacsï – "mae cymaint o bethau ofnadwy yn digwydd yn y byd 'ma ... llofruddiaethau ..."

Pennod 10

Mae'r sôn am y perl yn adlais o'r sylw am y watsh Mickey Mouse.

Eironi – y ferch oedd wedi penderfynu ei lladd ei hun nawr eisiau dianc. Diweddglo min dibyn eto.

Pennod 11

Mae Mal fel petai wedi ei ddal mewn rhwyd ar ddiwedd y bennod.

Pennod 12

Perthynas Toni a Mal – Toni eisiau dianc hefyd '... byddai hithau'n rhydd wedyn – yn rhydd i symud, i fynd, i adael.'

Pennod 13

Darlunnir sefyllfa Tanwen – wedi gwario ei harian i gyd ar gadw Camel a Jaco all hi ddim talu rhent i Mrs Turvey. Yna daw 'angel a ddaethai heb weddi' i'w hachub – Manon Elin o Oriol luniau gydag arian i dalu am dri llun.

Pennod 14

"DW I 'DI GORO HEL 'MHAC a ffoi o'na" – geiriau cyntaf y bennod. Mae'r darlennydd yn dyfalu pwy sy'n siarad. Mae Toni wedi sôn am ddianc, ond cawn mai Lois sydd yma yn chwilio am lety. Mae eironi arbennig yn y diwedd glo gyda sylw Mama Losin – "Ni wedi bod yn dy ddisgwyl di." Ac adwaith y gyrrwr taci – 'A theimlwn yn dawel 'y meddwl ...'. Erbyn hyn mae'r darlennydd yn llawn amheuan ynghylch croeso'r llety hwn.

Pennod 15

Gwewyr meddwl Alys sy'n methu dod o hyd i'w chariad yw testun y bennod hon. Mae hi'n holi sawl cwestiwn iddi hi ei hun. Does neb yn fodlon ei helpu ac mae ing yn ei chwestiwn olaf, 'Sut mae profi bod rhywun wedi diflannu?' A hynny ar waethaf biwrocratiaeth yr oes – ystyrier ymson Ellis Wynne. (t. 114)

Pennod 16

Camel yn ail-gydio yn ei fywyd – wedi llenwi ffurflenni. Tanwen yn cloriannu ei sefyllfa hi a Camel a Jaco: 'Beth ydyn ni, ni'n tri? Teulu, ffrindiau?'

Yn y siop mae Tanwen eto'n ymgodymu â'i chydwybod ynghylch siarad Cymraeg â'r Saeson.

Mae'r diwedd glo i'r bennod hon eto yn un min dibyn. Mae Camel wedi gweld merch fach ddieithr yn yr ardd. Ymateb Tanwen yw: "Peth od ... Sgwn i beth oedd hi'n 'neud lan ffordd hyn?"

Pennod 17

Mal yn teimlo – 'yn fwy rhydd nag y bu erioed yn ei fywyd o'r blaen'. Eironi – '... pobl yn diflannu bob dydd, miloedd bob blwyddyn ... A doedden nhw ddim i gyd yn cyflawni hunanladdiad neu'n cael eu llofruddio a'u claddu mewn sment.'

Pennod 18

Sylwer ar amwysedd y frawddeg olaf – 'Ac yna ... pwy a wŷr?'

Pennod 19

Ailadrodd Rhan 1, Pennod 1 ac 17 – Mal yn ail-fyw'r profiad o yrru eto gyda Frank Sinatra yn gwmni fel o'r blaen, ac yna'r ddamwain. Ceir yr un delweddau ag o'r blaen.

Sylwer ar yr arddull eto – 'Dim lliwiau eraill, dim golau arall, dim ond du, du, du' ac ar y modd y mae'r awdur yn amrywio hyd brawddegau a defnyddio cyfres o frawddegau byrion: 'Gwallt du. Ffrog werdd. Blodau melyn. Yn gorwedd ar y tarmac.' (Mae nifer o enghreifftiau o'r amrywio yma yn y nofel ac o restru brawddegau byrion – dull effeithiol iawn o bwysleisio.)

Mae sawl dirgelwch eto ar ddiwedd Rhan 2, a'r awdur yn ennyn chwilfrydedd y darlennydd:

- Tybed ble mae'r gyrrwr tacsï yn ffitio i mewn i'r stori?
- A beth am y ferch ddiennw oedd ar y trê'n? Pam na chaiff ei henwi?
- Beth yw dirgelwch yr ardd goncrit?
- Pwy yw'r ferch fach a welodd Camel yn yr ardd?

Rhan 3 “Caeedig Gylch”

– sy’n datrys sawl dirgelwch –

1. Y cylch yn cau am Mal – mae’n ffoi o’i gartref gan ofalu ‘nad oedd e’n cario dim ac arno’i enw a’i gyfeiriad’. Caiff lifft gan yrrwr lori, Hedd Wynne, sy’n amau ei fod yn adnabod Mal. Wedi methu dod o hyd i Lois mae Mal yn mynd i gaffi ac yn gweld Tanwen yr ochr arall i’r ffordd a llewygu. Mae Alys yn gofalu amdano a’r gyrrwr tacsï, Ellis Wynne, yn awgrymu llety – tŷ Pwdin Mawr a Mama Losin. Y ddau frawd sy’n arwain yr heddlu i dŷ Pwdin Mawr a Mama Losin.
2. Y cylch yn cau am y dihirod. Mae’r ddau oedd mor gariadus y naill yn beio’r llall. Datgelir fod 14 wedi eu claddu yn yr ardd. Mae Alys yn sylweddoli fod Patric yn un ohonynt.
3. Mae Tanwen ac Alys yn cytuno i rannu tŷ a Camel yn penderfynu symud ymlaen.
4. Daw Tanwen i wybod hanes Mared ac mai ei merch fach hi a laddwyd.

Sylwadau ar adeiladwaith ac arddull

Pennod 1

Darlunnir Nadolig arferol Alys yn ei chartref a’i hatgofion am y Nadoligau a fu a’r anrhegion a gawsai gan Patric – yn gwrthgyferbynnu â thristwch y Nadolig hwn a hithau’n llawn pryder ynghylch tynged Patric.

Pennod 2

Tanwen a Camel yn canu ar y stryd a Pwdin Mawr a Mama Losin yn gwrandao arnynt – cysylltu dau linyrn yn y stori.

Pennod 3

Pennod sy’n darlunio i ni eto sut mae Pwdin Mawr a Mama Losin yn croesawu eu gwesteion (cf. y croeso a gafodd Patric, Rhan 1, Pennod 13). Yma’r gwestai yw Americanwr, sy’n dotio cymaint fel ei fod eisiau eu harddel yn rhieni iddo.

Pennod 4

Llif meddyliau Mal – ‘yn ffoi rhagddo ef ei hun’. Mae’n derbyn lifft gan Hedd Wynne ac yn bradychu’r ffaith ei fod yn ddarlithydd.

Pennod 5

Darlunnir gofid Alys am nad yw wedi dod o hyd i Patric a chawn gipolwg ar fywyd cwpl y dinistriwyd eu bywyd am fod rhywun wedi ymosod arnynt – dioddefwyr eraill a chosb y troseddwr yn un ysgafn o gymharu – beirniadaeth ar gyfraith ein cymdeithas gyfoes.

Pennod 6

Dilyniant o Bennod 4 – Hedd Wynne yn sôn am ei orchestion barddol. Mal yn esgus cysgu. Yna'r braw o weld merch fach ar ganol yr heol – yn yr union fan ag o'r blaen (ailadrodd golygfa). Mae Hedd Wynne wedi ei gweld hefyd ond mae'r ddau'n dyfalu tybed ai ysbryd oedd hi?

Pennod 7

Cydblethu llinynnau:

Pwdin Mawr yn cael y sac am ddwyn *paperweight* – seren yn y belen – yn anrheg i Mama (cofiwn am ei diddordeb yn y golofn yn y papur newydd – “Darllen fy sêr”). Y ddau'n mynd i'r caffi, Caffi Jones. Mae Alys yn gweini yno. Yno hefyd mae 'dyn wynepgoch barfwen' (Mal) sy'n llewygu wrth ei ford.

Pennod 8

Tanwen yn mynd i weld Mared. Y wlad dan eira '...llannerch ... hen dŷ carreg ... Llun plentyn o dŷ ... dim llwybr ... dim gardd ... Tŷ ysbrydion oedd hwn' (cf. Rhan 1, Penodau 1, 17 a Rhan 2 pennod 19 – atgof Mal am y ddrama 'Ysbrydion yn meddiannu'r noson ...'). Gw. hefyd y nodiadau ar Lanhowys.

Pennod 9

Mae'n cyd-redeg â phennod 7:

Mal wedi cyrraedd Aberdyddgu – chwilio am Lois ond cael ei siomi. Chwilio am gaffi i gael bwyd – negyddol iawn yw'r darlun yma eto 'dim siop ffrwythau ... dim siopau losin ...', hel atgofion (Bopa Oli ac ati). Yna, mae'n dod o hyd i gaffi, gweld Tanwen a llewygu. Cofier y cydblethu (pennod 7), a nawr mae Tanwen yno hefyd.

Pennod 10

Yn y caffi eto. Alys yn cael y sac ac yn gadael gan gymryd gofal dros Mal.

Pennod 11

Dyn y tacsî 'hynod o debyg i Hedd Wynne', cyn-fyfyriwr o'r Adran Astudiaethau Celtaidd sy'n amau ei fod yn adnabod Mal, yntau'n ceisio'i gamarwain:

"Un o'r wynebâu cyffredin 'na sy 'da fi ... Dw i'n debyg i lawer o bobl, heb fod yn union debyg i neb."

Alys yn gadael Mal yn nhŷ Pwdin Mawr a Mama Losin, mewn stafell wely oedd 'yn troi arni, ei mygu a'i thagu; rhaid oedd iddi ddianc.'

Pennod 12

Yr Adran yn ceisio dod o hyd i Mal. Mae ymateb ei gyd-ddarlithwyr yn ddadlennol – Dedwydd Roberts yn rhegi, Heulwen yn sbeitlyd, Juno yn cynnig mynd draw i'r cartref i fusnesa ...

Pennod 13

Alys yn cwrdd â Tanwen – 'ar yr un donfedd â hi y funud y'i gwelodd.'

Pennod 14

Dedwydd Roberts yn ffonio Toni. Mae ymateb Toni'n gwbl ddifraw – 'Ffoniwch yr heddlu.'

Pennod 15

Tanwen yn symud tŷ, Camel yn ei helpu, Alys yn eu croesawu gyda phryd o fwyd.

Pennod 16

Mal/Morus yn wael yn ei lety, yn dyfalu ai dychmygu'r cyfan wnaethai Tanwen, y ferch fach, Hedd Wynne – gan ofni ei fod yn colli ei bwyll. Mae ei ddryswch yn cael ei gyfleu mewn cyfres o gwestiynau: 'Oedd ei feddwl yn chwarae triciau arno fe? Faint o'r gloch oedd hi? ... Ble'r oedd e?'

Daw'r atgof am y ddamwain eto i'w boenydio: 'Tywyllwch y nos ...'

Gofynnodd i Pwdin Mawr a Mama Losin alw doctor ond yn ofer. Maent yn chwerthin am nad yw 'ei nith'/Alys wedi galw yno, gan dybio nad oes neb yn mynd i weld ei golli.

Pennod 17

Ellis Wynne – ymson – wedi darllen y *Western Mail* gall ddweud ei ddweud am agweddau at y Gymraeg ac yno hefyd y gwelodd fod ei gyn-ddarlithydd ar goll. Wedi sgwrs â'i frawd mae'n ffonio'r heddlu: '... wedi 'neud 'y nyletswydd, 'y nghydwbybod yn lân.'

Pennod 18

Alys yn cofio'i haddewid i alw i weld Mal/Morus (wedi breuddwydio amdano) a Tanwen ar ei ffordd i weld Mared (mae'n gweld y teulu newydd sydd wedi dod i'r bwthyn) – y ddwy'n mynnu cyflawni'r gorchwylion yn ddigwmni (merched annibynnol).

Pennod 19

Alys ar ei ffordd – gwraig a thri dyn meddw ar y bws (yn gyfle arall i'r awdur ddangos agweddau Saeson at y Gymraeg. Cawn gryn ddefnydd o'r Saesneg eto – cf. Rhan 1, Pennod 4). Cyrhaedda Stryd Wellington a chaiff fod yr heddlu yno yn arestio'r pâr rhyfedd. Clyw'r wraig yn gweiddi, "Ti yw'r diafol." Mae rhywun yn y dorf yn dweud, "O'n nhw wastad mor lyfi-dyfi" ac Alys yn llewygu.

Pennod 20

Dilyniant o Bennod 18 – Tanwen yn y goedwig. Pwysleisir mor neilltuedig yw'r goedwig:

'... nemor ddim peryglon. Prin yr oedd yno arwydd o ddynoliaeth. Dim adeiladau, dim peiriannau, dim ceir.'

Ond yna clyw Tanwen sŵn awyren yn 'ei hatgoffa nad oedd dihangfa i'w chael ...'

Datrysir dirgelwch Mared – wedi magu'r efeilliaid ar ei phen ei hun: 'Dim dynion. Dim Saesneg. Uned berffaith ...'

Pennod 21

Pennod sy'n cyd-redeg o ran amser â Phennod 19, yn disgrifio'n fanwl beth ddigwyddodd pan ddaeth yr heddlu i Stryd Wellington. Mae'r bennod yn diweddu gyda'r un sylw gan rywun oedd yn y dorf – "O'n nhw arfer bod mor lyfi-dyfi" ac Alys yn llewygu.

Hynny yw mae'r awdur yn ailadrodd golygfa trwy lygaid gwahanol – techneg effeithiol – Rhan 3 Pennod 19 trwy lygaid Alys a Pennod 21 trwy lygaid Pwdin Mawr a Mama Losin.

Pennod 22

Ymson Ellis Wynne sy'n bwrw golwg dros y digwyddiadau, yn mynegi ei bryder drosto'i hun a'i frawd am nad yw'r heddlu'n gwbl fodlon nad oedden nhw'n rhan o'r cynllwyn er ei fod e'n 'gwbod bod 'y nghydwybod i'n lân' (cf. Pennod 17). Mae hefyd yn dadlennu ymateb y cyhoedd ac yn rhyfeddu bod pobl yn ymddiddori yn y fath erchyllterau.

Pennod 23

Brawddeg agoriadol:

'Âi i'r ardd peth cyntaf bob bore nawr...' Yna disgrifiad o ardd flodau ddiwedd y gwanwyn, gardd yr oedd Tanwen wrth ei bodd ynddi '... golau'r haul ... yn bwrw allan y tywyllwch a fu.'

Ar ddiwedd y nofel a oes unrhyw gwestiwn heb ei ateb?

A oes angen y bennod olaf? Pennod dawel yw hon. Gellir ei chymharu â phennod olaf *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr*, Alun Jones. Mae'n dilyn pennod sy'n llawn cyffro. Ai'r bwriad yw awgrymu fod bywyd yn mynd yn ei flaen?

Delweddau/Elfennau pwysig

- **Llythyrau**

Llythyr Tanwen at ei thad yn gofyn am arian – Toni yn ei losgi

Llythyr y myfyrwyr yn bygwth Mal – Mal yn ei daflu

Llythyr Camel yn diolch i Tanwen

Mae pob un o'r llythyrau yn cadw dirgelwch a'r potensial gan bob un i newid y plot.

- **Galwad ffôn** – Ellis Wynne yn ffonio'r heddlu yn arwain at y datrysiad (*dénouement*).

- **Blodau**

Rhan 1 Pennod 6 – '... mae 'na hen sgerbydau blodau sydd eisia' eu torri i lawr ...' Rhan 2 Pennod 10 'Dyma'r greigfa ... slabiau hirsgwar o goncrit ... rhyngddynt ... tyfai planhigion gwyllt – chwyn yn wir ... a'r rheini'n sgerbydau meirwon y gaeaf.' (gardd Pwdin Mawr a Mama Losin)

ysgerbydau blodau – deuoliaeth bywyd: byw/marw

Rhan 3 Pennod 2 – blodau tu allan i'r orsaf yn nodi ble roedd ffrindiau llanc sy wedi marw'n arfer cwrdd – Cyfeiria Tanwen atyn – "maen nhw'n mynd i farw a chael eu chwythu i ffwrdd a bydd y gweddillion yn cael eu clirio gan ddynton sbwriel y cyngor wythnos nesa'."

Rhan 2 Pennod 12 – perthynas Toni a'i llysferech – 'tyfasai gelyniaeth rhyngddynt fel chwyn rhwng blodau' – cyffelybiaeth sy'n cynnal y ddelwedd o'r blodau.

- **Gardd**

Rhan 1 Pennod 6, Rhan 2 Penodau 1, 10 – gardd Pwdin Mawr a Mama Losin

Rhan 1 Pennod 7 – gardd Mal a Toni

Rhan 1 Pennod 8 – gardd Tanwen heb flodyn ym mis Tachwedd

Rhan 1 Pennod 16 – gardd Zen Mal

Rhan 3 Pennod 23 – gardd Tanwen – 'gardd wledig hen ffasiwn, ddi-drefn-drefnus'.

- **Môr**

Rhan 2 Pennod 15 y 'môr yn rhuo yn ei chlust dde' – fel petai'r môr yn ceisio siarad â hi, yn ceisio rhannu cyfrinachau, camsyniad teimladol (*pathetic fallacy*.) Awgrymir ei fod yn arwain Alys fel pŵer goruwchnaturiol.

- **Y Nadolig**

Rhan 1 Pennod 4 – y llanc digartref (t. 18); Toni (t. 160); Lois (t. 170); Alys (t. 173-4, t. 194)

Rhan 2 Penodau 12, 14

Rhan 3 Pennod 1 Nadolig Alys cf. Nadolig Ennyd yn *Wele'n Gwawrio* gan Angharad Tomos

Cefndir y nofel

Mae dau brif leoliad i'r nofel: Aberdyddgu, tref glan môr a Chaerefydd, dinas Prifysgol.

'ond nid oes angen fawr o ddychymyg i amau ... mai Aberystwyth a Chaerdydd sydd hwyrach o dan sylw.' (Angharad Price)

Hefyd cyfeirir at bentref ger Aberdyddgu, pentref gwledig Llanhowys.

Caerefydd

Darlunnir y ddinas fel dinas gwbl Seisnig. Noda Mal pa fath o ymateb a gâi pe bai'n siarad Cymraeg yno: "*I don't speak Welsh*" ac un tro cawsai "*I speak English*" a thro arall, y gorchymyn "*SPEAK ENGLISH*". [Ymdrinnir â'r Brifysgol yn y nodiadau ar Gymeriadau.]

Aberdyddgu

'... roedd hi'n haws mynd o Gaerefydd i ddinasoedd eraill pellach i ffwrdd – Llundain, Birmingham, Paris ac America hyd yn oed – na mynd oddi yno i Aberdyddgu anghysbell, diarffordd ... Ar y trên roedd yn rhaid mynd trwy Loegr am ryw reswm cwbl annealladwy.'

Yma mae'r awdur yn ychwanegu elfen real gan ategu'r dybiaeth mai Aberystwyth a Chaerdydd yw ei leoliadau. (Rhan 3 Pennod 1)

Cawn olwg ar y dref trwy lygaid yr '... unig un o blith y gyrywyr taccis sy'n gallu siarad Cymraeg.'

'... Aberdyddgu yn troi o fod yn dref lan-y-môr ddigon Cymreigaidd i fod yn lle hollol Seisnig, bron.'

'Hen bobl yw'r unig gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg â mi yn gyson, heblaw am ambell ddysgwr ...

'sdim ots y naill ffordd na'r llall 'da'r rhan fwyaf o Gymry os 'yn nhw'n clywed Cymraeg mewn tasci neu beidio. 'Sdim ots 'da'r rhan fwyaf o Gymry os yw'r iaith yn parhau neu beidio.'

Tref o bobl ddŵad yw hi – Cyfeiria'r gyrrwr tasci at Pwdin Mawr a Mama Losin –

"Smo nhw'n frodorion y dref 'ma – pwy sydd?'

'... cymaint o artistiaid a llenorion yn cael eu denu i'r lle fel gwenyn i'r pot jam ... a'r môr a'r wlad hyfryd o'i gwmpas yn atyniadol i Saeson ... darn o graffiti ar wal yn y dref a oedd wedi crynhoi'r sefyllfa yn berffaith: *Why don't you find somewhere else that's unspoilt and go and spoil that?*'

Argraff gyntaf Alys yw "Twll o le." (t. 141)

'Roedd hi fel byw mewn powlen pysgod aur – troi a throi yn yr un hen gylchoedd, gweld yr un hen wyneb, yr un hen lefydd.'

Erbyn diwedd y nofel mae'n gas gan Mal y dref:

'... a'i hawyr heliaidd, ei gwylynod milain, piwis, ei thwristiaid a'u hacenion Birminghamaidd cwynfanlyd, ei Chymraeg prin ac anniwylliedig.'

Ond eto caiff well ymateb i'r Gymraeg yn Aberdyddgu nag yng Nghaerefydd:

'Roedd e wedi siarad Cymraeg heb feddwl ac wedi cael ateb yn Gymraeg, felly, nid yn y ddinas mohono, neu byddai'r ateb wedi bod yn fwy pigog o lawer.' (gw. Caerefydd)

Cawn fod Tanwen ac Alys hwythau'n gyfarwydd â'r ddau le:

"Rhyfedd ein bod ni'n dwy yn dod o Gaerefydd ac heb gwrdd o gwbl."

"Mae'r ddinas yn fawr. Gwahanol i Aberdyddgu lle mae rhywun yn baglu dros yr un bobl o hyd."

Llanhowys

Yma mae bwthyn Tanwen, ar gyrion y pentref mae'r goedwig lle mae Mared yn byw ac ar y ffordd yn ymyl y pentref mae Mal yn lladd y ferch fach.

Yn y pentref gwledig hwn, sydd 'braidd yn *cut off*' (Rhan 3 Pennod 2) darlunnir y gwrthdaro rhwng Cymry a Saeson. Sais yw'r siopwr yn siop y pentref. Pan ofynnodd Mared am ei neges yn Gymraeg a gwrthod ar egwyddor droi i'r Saesneg, gwelwn ei ragfarn yn ei ymateb,

"I've told you before ... it's no use you comin' in 'ere and jabberin' away like that ... It's the same when you go to France though; so many of them just won't speak English. So rude."

Yn nes ymlaen cawn fymryn o ymdrech ganddo gyda'i "Diolc yn ffawr". Ond yna, daw'r sylw dychanol 'sawl mewnfudwr ar ôl ugain mlynedd yn y wlad sy'n dal i ddweud "diolch" a dim mwy'.

Mae Tanwen yn rhentu'r bwthyn oddi wrth Mrs Turvey, sydd hithau'n ddi-Gymraeg ac yn hiliol ei rhagfarn, *"I've told you before I don't speak Welsh."*

Mae'n colli ei thymher pan ddim Tanwen "Bore Da" iddi hyd yn oed.

Pan symuda Tanwen o'r bwthyn fe ddaw teulu o Saeson i fyw yno. Awgrymir felly mai Seisnigo fwyfwy fydd hanes y pentref.

Ar y cyrion yn y goedwig mae llannerch lle saif cartref Mared. Fe'i disgrifir fel:

'hen dŷ carreg. Llun plentyn o dŷ ... Ond ... doedd yma ddim llwybr ... mor ynysig – ddim yn rhan o'r byd hwn! (Rhan 3 Pennod 8)

Tybed a yw'r awdur yn awgrymu fod yma rhyw fath ar *ghetto*, lle mae'r Gymraes ddiwyro a'i merched iaith a Llên, wedi eu hynysu oddi wrth weddill y gymdeithas? [Bu cyfnod pan oedd rhai Cymry yn tybio mai creu *ghetto* mewn bro naturiol Gymraeg ei hiaith oedd yr ateb i'r bygythiad i'r iaith oherwydd y mewnlifiad. Mae dadl Mared a Tanwen yn adlewyrchu'r gwahanol safbwyntiau. (t. 274-5)]

Yn wir, awgrymir fod bywyd y pentrefwyr yn un ynysig. Nid yw Tanwen a Camel wedi clywed am y ddamwain. (Rh3 P2)

Cymeriadau

Wrth astudio'r cymeriadau rhaid cadw mewn cof y cwestiwn heriol yn y broliant, 'Ond ai rhith yw pawb a phopeth – y ddelwedd arwynebol, perthynas y cymeriadau â'i gilydd, eu gorchestion, eu cyraeddiadau?'

Maldwyn Taflun Lewis

Disgrifiad allanol – Gŵr canol oed ... Stribedi o wallt tenau, melyn, gwyn bron. Trwyn coch. Bochau porffor. Ac roedd e'n ofnadwy o dew.' (t. 37) Mae Lois yn ei alw 'yr hen hippo' a'r 'hen forfil' .

Ond pan gwrddwn ni â Mal am y tro cyntaf y mae'n gyrru car moethus a'r profiad yn rhoi gwefr iddo. Mae'n gwneud iddo deimlo'n ifanc 'ac yn gryf ac yn ddeniadol'.

Noda Mal mai 'Cymraeg oedd ei hoff bwnc' yn yr ysgol ac roedd yn benderfynol o gael

'y marciau uchaf' (t. 231). Roedd yn fachgen uchelgeisiol ac academiaidd. Fe lwyddodd i gael swydd fel darlithydd yn Adran Geltaidd y Brifysgol yn y ddinas. Mae'n hyddysg yn llenyddiaeth y Cymry. Cyfeiria ato'i hun fel 'un o wŷr Pwyll yn ceisio dal Rhiannon' a sonia am 'R.T. Jenkins yn ceisio cyrraedd Llandeloy'. Cyfeiria at waith Proust ac Antoine de Saint-Exupéry, llenorion Ffrainc.

Cawn ei fod yn berson cyhoeddus sy'n ymddangos ar y teledu yn aml, yn aelod 'o bob pwyllgor a cwango' (t. 158).

Fe welwn fod Mal yn dda am dwyllo eraill:

- ei wraig – 'roedd e'n gyfarwydd â phalu celwyddau' (t. 24) ac wedyn 'Mal 'chan: meddwl am gelwydd arall yn gyflym' (t. 91);
- y myfyrwyr sy'n ceisio elwa wedi deall am ei berthynas â'r butain
- yr heddlu (t. 138-40)
- y cyhoedd. Mae'n credu ei fod yn ddarlithydd poblogaidd y tu allan i'r coleg, '... yn cael ymateb gwresog bob amser, am ei fod ... yn un o'r "werin".' (t. 59)

Bu'n gweithredu dros yr iaith. Bellach mae'n aelod o'r Bwrdd er Hybu'r Gymraeg. Yna daw cais iddo gymryd rhan weithredol eto ond 'Doedd y ffon ddwybig ddim haws ei chwarae nag oedd cadw i fyny gyda'r cŵn a'r cadno.' (t. 92) Mae'n dewis cadw'i 'segurswydd werthfawr' ac yn penderfynu gwrthod gweithredu.

Mae'n amlwg fod Mal wedi defnyddio'i statws i ymelwa. Sonia Heulwen am y "tŷ mawr, dau gar – un newydd sbon". Gall fforddio newid ei gar am un newydd arall ar ôl y ddamwain, er nad oedd dim ond tolc bach arno. Mae ei wraig yn gallu gwario'n hael ar ei chathod. Mae rhyw elfen barasitaidd i'w gymeriad, hynny yw, mae'n ddigon parod i dderbyn popeth a ddaw i'w ran ond nid yw'n cyfrannu mewn unrhyw ffordd. Sylwn ar ei ddilema ynghylch gweithredu dros yr iaith. Dylid ystyried arwyddocâd ei enw canol, Taflun.

Yr hyn sy'n dod yn amlwg yng nghwrs y nofel yw mai rhith yn unig yw'r llwyddiant ac o dan yr wyneb mae Mal yn fethiant – fel tad, gŵr a darlithydd –

'Rhith yw popeth – popeth yn rhith.' (t. 62)

- Ni wŷr ddim o hanes ei ferch, Tanwen.
- Nid oes perthynas agos rhyngddo a'i wraig, Toni. [gw. y nodiadau ar Toni]
- Nid oes ganddo ffrindiau yn y gwaith. Yr unig un y mae Mal yn ystyried y gall siarad â hi yw Lois, y butain, ac nid oes ganddi hi unrhyw ddiddordeb yn ei broblemau.

"Hen greadur diog, blonegog. Dim gwaith yn ei groen" yw barn Sylvia amdano. (t. 108)

Nid yw'n ymdrechu i wneud ei ddarlithoedd yn ddiddorol, yn wir trodd ei gwrs yn

"drychinebus o amhoblogaidd". Ceir un esiampl ohono'n darlithio â'i feddwl ymhell i ffwrdd – mae'n pendroni sut i ddelio â'i argyfwng.

Ond roedd ei fyfyrwyr wedi colli diddordeb cyn hyn. Beth oedd wedi digwydd i'r bachgen ifanc brwdfrydig? A oedd y sefydliad yn euog o'i lygru?

Gan gofio bod Mihangel Morgan wedi benthycu ymadrodd allan o'r soned 'Cymru 1937' gan R.

Williams Parry yn deitl i'w nofel, y mae'n bwysig ystyried cymeriad Mal yng nghyd-destun y soned.

Wedi'r cyfan, y mae Mal yn ddarlithydd yn y brifysgol. A oes gan Mal yr un nodweddion â'r bobl y cyfeirir atynt yn y soned a ysgrifenyddwyd ar ôl i Brifysgol Cymru ddiswyddo Saunders Lewis am ei ran yn cynnau'r tân a losgodd ysgol fomio Penyberth. Disgrifir y Brifysgol fel 'Philistia', gair a ddefnyddir i ddisgrifio'r sawl sy'n dibrisio celfyddyd. Mae'r bardd yn cyfarch y Gwynt gan ddyheu:

Rho awr o wallgofrwydd i'r llugoer tu ôl i'w fur,
Gwna ddaeargrynfeydd dan gadarn goncrit Philistia;

...

Cyrraedd yr hunan-ddigonol drwy glustog ei lwth.

A dyro i'r difater materol ias o anobaith.

Y weithred o ladd y ferch a pheidio â dweud wrth yr heddlu sy'n dod ag **euogrwydd** i'r amlwg a gwneud i Mal fwrw llinyn mesur dros ei fywyd. Mae Mal ei hun, y person 'hunan-ddigonol, difater materol' yn profi 'anobaith' Dadlennir ei fod yn teimlo'n euog am nifer o ddigwyddiadau yn ei orffennol. Y mae pob un yn ymwneud â'r berthynas rhyngddo â phobl eraill – Bopa Oli (t. 231), Eleri, Tanwen, Toni – pobl oedd yn agos ato. Awgryma hyn ei fod yn ei chael hi'n anodd i ffurfio a chynnal perthynas. [gw. Themâu]

Yn ogystal cyfeirir at Erfyl, ei "gyfaill mynwesol yn y coleg", a oedd wedi marw, ond pan ffoniodd ei wraig i dorri'r newydd nid oedd Mal wedi gofyn am fanylion yr angladd. Nid oedd am ofyn am amser rhydd o'r gwaith. (t. 233)

Cyfeirir hefyd at fyfyrwraig y cafodd berthynas â hi. Sonia am ei "ymddygiad anifeilaidd tuag ati". Ni chawn wybod ei henw. Dyna ddirgelwch a ddatrysir yng nghwrs y nofel.

Mae'r ymdeimlad o euogrwydd yn peri fod Mal yn mwynhau pleserau sadomasocistaidd gyda Lois. Ar ei ffordd i weld Lois yr oedd pan laddodd y ferch fach. Mae'n amlwg fod Mal yn teimlo ei fod yn haeddu cosb. Caiff ei guro'n greulon ac wrth dderbyn brath y chwip mae'n meddwl

'dw'i'n ddrwg, dw i'n haeddu'r gosb 'ma. Dw i'n ddrwg, brwnt, isel. Cura fi, plis, plis!' (t. 12)

Mae'r ymdeimlad wedi dwysáu yn nes ymlaen pan benderfyna ddiodeff gwaeth curfa,

'Gadael iddi 'y nghosbi go-iawn y tro hwn.' (t. 133)

'Fe'i cosbwyd am fod yn fethiant i Bopa Olwen, a methu bod yn gyfaill triw i Erfyl, a methu cadw Eleri rhag y bedd, a methu bod yn dad da i'w blentyn ei hun wedyn, a methu bod yn ffyddlon i Toni.' (t. 234)
Clywn fod Mal yn diodeff o afiechyd, "clwy'r marchogion", ac ei fod eisoes wedi cael un trawiad ar y galon. Mae ei iechyd yn dirywio wrth i bryder ynghylch y ddamwain effeithio arno. Mae'n sibwrdd wrth y gath farw, "Dw i ddim yn gwpod beth i 'neud, Cleo".

Mae'n ail-fyw noson y ddamwain a'r cyfan yn ymdebygu i hunllef (penodau 17 ac 19).

'.. ni all ddiodeff byw yn ei groen ei hun a'i gydwybod yn ei brocio trwy'r amser; felly roedd e'n ffoi rhagddo ef ei hun.' (t. 207)

Dechreuwa ddiystyru cyngor y meddyg: mae'n yfed yn drwm ac yn bwyta bwydydd seimllyd. Penderfyna ddianc trwy ffawdheglu ynghanol oerfel y gaeaf. Mae golwg hen drempyn arno –

'Edrychai'n hŷn o lawer. (t. 206) ... hen drempyn barfwen, trwyngoch ...' (t. 207)

Mae Mal yn llawn anobaith, yn derbyn fod ei fywyd yn dod i ben:

'Gwyddai ei fod yn agos at y diwedd beth bynnag.' (t. 181)

Wrth gerdded ar hyd y ffordd meddylia,

'byddai'i farwolaeth yn datrys ei holl broblemau; dyna'i ffordd athronyddol, stoicaidd, ddifraw o edrych ar ei iechyd bregus ...' (t. 207)

'teimlai'n rhydd o boenau'i gydwybod am y tro cyntaf ers y ddamwain.' (t. 206)

Toni

'... llenwadau lliw arian yn ei dannedd ... Mor orioig oedd hi ac mor hygoelus ...' (t. 93)

Ail wraig Mal yw hi. Ei phrif ddiddordeb yw cadw cathod. Er ei bod, pan gwrddwn â hi gyntaf, yn ein twyllo i feddwl ei bod yn meddwl y byd o'i chathod, mynd i sioeau i gwrdd â phobl eraill a chael sylw pan fyddai ei chathod yn ennill yw ei gwir fwynhad.

Dysgwraig yw Toni. Mae'n camddefnyddio geiriau:

- "dw i'n teimlo fel llawryf" (t. 22)
- dywed eu bod yn claddu'r gath, Cleo, 'dan y groth' (t.36)
- haera fod ei chathod "o waed coch cyfarth" (t. 187)

Mae hi'n ansicr o'i chystrawennau – "Rydw i mynd ... Beth ddywed dy dad pan ddod ef adref? ... Tynnu

dy gôt ohonot.”

Mae'n yfed yn drwm – fodca i frecwast – potel fodca i'r bath – 'hitio'r botel' ben bore a phob cyfle drwy'r dydd wedyn.

Y materol sy'n mynd â'i bryd – sonia ei bod awydd stafell fore, fel un ei chwaer (Rhan 3 Pennod 14).

Y mae'n amau fod Mal yn cael perthynas â rhywun arall ac ar ôl darllen nodyn ei fyfyrwyr mae'n penderfynu ei adael:

'... dim ond copa'r mynydd iâ oedd ei bywyd priodasol hi a Maldwyn. Roedd llosgfynydd oddi tano ar fin ffrwydro, a'i dân a'i lafa a'i wreichion yn mynd i lifo dros eu bywyd ... Ond fyddai hi ddim yn aros i'r poethder ei chyrraedd hi. Rhyngddo fe a'i gawl. Fyddai hi ddim yn chwarae rhan y wraig-fach-ffyddlon-a-safai-wrth-ei-ochr-doed-a-ddêl. Bu'n chwarae rhan y wraig ddosbarth canol, henffasiwn yn ddigon hir, yn rhy hir.' (t. 162)

[Dylid cyfodod perthynas Mal a Toni â pherthynas Pwdin Mawr a Mama Losin]

Hefyd cymharer y diffyg perthynas neu'r diffyg dealltwiaeth rhwng parau eraill yn y nofel hon – Mal a Tanwen, Alys a'i thad. [gw. Themâu]

Lois

Putain Gymraeg yw hon. Pan â Mal i'w chwmni disgrifir hi'n 'fenyw fawr gnawdol' yn ei '*basque* du a'i bwtsias lledr, a'i chwip yn ei llaw dde a sigarét yn y llall ... roedd hi'n rhywiol ac yn feistrolgar' (t. 14). Ceir awgrym efallai mai dyn yw.

Down i ddeall nad yw'n mwynhau plesio dynion fel Mal ond mae'n dibynnu ar eu harian i dalu rhent.

Disgrifir ei hystafell flêr:

'pentwr o gylchgronau dwmbwldambal ... cloc larwm wedi stopio am ugain munud wedi tri ... pacedi prydau-sydyn i'r meicrodon ... hen gydau te yn sychu, sawr sachau dyrnu.' (t. 13)

– darlun o fywyd truenus o ddiflas, *sordid*.

Tanwen

Disgrifiadau:

'mwng o wallt lliw dur' (t. 67) '... menyw drawiadol ... hen hipi oedd hi' (t. 123) '... menyw

dra-awdurdodol ... eiddil a gwelw' (t. 63)

Mae hi'n arlunydd ac yn gerddorol, yn canu ac yn chwarae gitâr.

Mae'n garedig, yn teimlo trueni dros y llanc digartref a'i chydwybod yn mynnu ei bod yn ceisio'i helpu.

Gwelwn ei dawn i dreiddio dan wyneb cymeriad:

'roedd rhywbeth amdano a oedd yn hardd – siâp y trwyn a'r wyneb, rhywbeth yn y llygaid glas dwfn.' (t. 42)

Pobl oedd ei diddordeb hi. Mae'n awyddus i ddod i adnabod Mared.

Mae hi'n ymwybodol o broblemau cymdeithas –

Statws y Gymraeg:

- Mae arwydd y llanc sy'n begera yn creu argraff arni am ei fod yn ddwyieithog a'r Gymraeg wedi cael y flaenoriaeth. (t. 42)
- Mae'n edmygu safiad Mared ac yn dymuno ei hefelychu – 'Doedd hi ddim yn mynd i siarad Saesneg â neb'. (t. 41)

Tanwen yn cyfieithu dros Mared (t. 84); mae hi'n wfftio at Mrs Turvey (t. 125).

Peryglon posibl diffyg parch at gyfraith:

- Mae'n cario cylllell fach yn ei phoced – 'menywod yn cael eu treisio bob dydd yn rhywle' (t. 40);
- Ceir yn rhuthro trwy'r pentref – 'Byddai rhywun yn siŵr o gael ei fwrw i lawr a'i ladd rywbyrd' (t.40);
- Mae ffobia ganddi ynghylch cloi'r bwthyn.

Problemau'r amgylchedd – 'Ceir yn llygru'r awyr ac yn gwenwyno popeth.' (t. 40)

Ni bu fawr o berthynas rhyngddi a'i thad – 'yn enwedig yn y blynyddoedd diwetha'.

Fodd bynnag, mae'n ysgrifennu ato i ofyn am arian. Ofer fu hynny gan fod y berthynas rhyngddi a'i llysfam yn un wael iawn. Mae'n amlwg fod atgof Tanwen am ei mam iawn yn un annwyl. Mae ganddi hen lun ohoni ond penderfyna beintio un gwell – 'un na fyddai byth yn ei werthu'.

Fe lwydda i ffurfio perthynas gyfeillgar â Camel ac ag Alys.

Mae hi'n ferch egwyddorol. Sylweddola fod ei ffrindiau yn fwy llwyddiannus na hi.

'Ond roedd y rheini wedi'u sefydlu'u hunain ar gorn ac ar gost eu hegwyddorion a'u hannibyniaeth.' (t. 121)

Synhwyra fod rhywbeth o'i le ar arian Mama Losin – 'Dw i ddim yn teimlo bod yr arian 'ma'n iawn, rywsut.' (t. 201)

Yn 'ei chlust fewnol hi' (ei chydwybod) mae'r llais sy'n dweud wrthi

'os byddi di'n gadael y dyn ifanc yna, bydd e'n marw heno yn yr oerni' (t. 47) (llais ei chydwybod) ac fel y Samariad Trugarog yn y Beibl mae hi'n ei helpu.

Gwelwn fod ei charedigrwydd tuag at y llanc yn dod â gwobr i'w ganlyn – mae ei lluniau yn gwerthu a hynny'n ei galluogi i dalu'i ffordd. Hefyd mae Alys wedi hoffi a phrynu llun o'r ci (a dyna ddolen gyswllt rhyngddynt cyn iddynt gwrdd).

Dyn ifanc digartref/Camel

Mae'r olwg gyntaf a gawn ohono yn feirniadaeth ddeifiol ar gymdeithas sy'n diystyru'r tlawd.

Nid oes ganddo deulu, gwaith na chartref. Mae'n byw mewn bocs, yn chwilio'r biniau am fwyd a darnau o sigarets,

'heb waith doedd dim gobaith cael llety – heb lety doedd neb yn fodlon rhoi gwaith iddo ... roedd e'n

gorfod yfed er mwyn cau'r byd allan.' (t. 18-19)

Y ci, Jaco, oedd ei unig ffrind ond roedd y ci'n rhwystr iddo gael lloches, roedd 'hyd yn oed y Sali Armi' yn gwrthod cŵn.

Agwedd eraill tuag ato:

- y tri llanc ifanc meddw – “*Look at that smelly bastard under the bench there.*” “*Gerra fuckin life, mate.*” (Saesneg di-chwaeth) (t. 19)
- rhai pobl ddim yn hoffi edrych arno ‘Rhag ofn iddyn nhw’u gweld eu hunain?’ (t.18)
- rhai’n ‘rhoi cardod mewn ymgais i leddfu cydwybod, yn talu am yr hawl i gerdded yr ochr arall heibio, fel petai.’ (t. 18)
- cyd-deithwyr ar y bws – “*What’s that pong, Mam?*” ... “*I can see things crawlin’ in ‘is hair.*” ... “*sheepshagger*” ... “*wino*” (t. 64-65)
- Tanwen – ‘Dyn ifanc blewog, budr, drewllyd ... croen yn llwyd, ymylon ei lygaid yn goch, a’r gwynt afiach a ddeuai ohono bron â chodi pwys arni.’ (t. 42)

Ond, mae’n gweld y tu hwnt i’r budreddi [gw. nodiadau ar Tanwen uchod].

Mae portread Tanwen ohono yn ddrych arall:

‘roedd e’n bert, yn feddal ac yn ferchaid ... A’r esgyrn tenau, porslennaidd o frau, esgyrn aderyn, penglog merch o Oes y Dadeni.’ (t. 165)

Wedi i Tanwen roi cartref iddo gall hawlio nawdd cymdeithasol a chwilio am waith. Mae’n dangos ei werthfawrogiad trwy fframio lluniau Tanwen a rhoi iddi’r hyder i ddal ati i bortreadu.

Alys

Menyw ifanc, byr o gorff, gwallt byr ac yn gwisgo’r un sbectol â John Lennon. Mae’n fyfyrwraig ymchwil ac yn ysgrifennu traethawd ar gyfer gradd M.Phil. ar hanes menywod y Cymoedd. Mae Patric, ei chariad, yn meddwl ei bod yn fenyw egwyddorol ac y byddai wedi “traddodi darlith ffeministaidd” wrth Mama Losin am nad oedd Pwdin Mawr yn ei helpu yn y gegin. Gwelwn gryfder ei chymeriad yn ei phenderfyniad i aros yn Aberdyddgu i chwilio am Patric, er nad oes unrhyw hanes ohono. Nid oedd help i’w gael o gwbl ‘chwaith, sy’n ategu’r difaterwch yn y gymdeithas a welsom yn hanes Camel. Mae’n barod i helpu Mal wedi iddo lewygu yn y caffi lle roedd hi’n gweithio ond er iddi addo galw i’w weld y diwrnod canlynol, erbyn iddi wneud hynny roedd hi’n rhy hwyr i achub Mal.

Pwdin Mawr

Disgrifiad corfforol: ‘dyn mawr tew ... wyneb blewog a’i ben moel ...’ (t. 27) ‘... fel y creadur blewog yn Star Wars ... ei ddannedd lliw taffi, lliw cwstard, ac ambell un du fel cwrensen’ (t. 72)

Pwysleisir ei faint a’i gryfder – ‘Bendigeidfran o ddyn’ a phan ysgydwodd law â Patric, ‘Siglwyd Patric o’i sedd, bron.’ (t. 72)

Pwysleisir hefyd yr elfen anifeilaidd yn ei bersonoliaeth yn y mynych gymariaethau:

fel arth ... fel tarw ... fel llew ... ceffyl gwedd o ddyn ... epa-ddyn ... ei fwstas morlo ... ei fraich Yetiaidd [Ystyriwch soned Gwenallt, *Pechod*, sy'n dweud bod yr elfen anifeilaidd ynom i gyd ac mai dillad ysgafn y gellir eu diosg yn rhwydd yw gwareiddiad.]

Wrth ei waith mae'n borthor yn y Coleg. Nid yw'n mwynhau ac y mae'n dyheu am fynd adref at Mama Losin o'r eiliad y mae'n cyrraedd ei waith. Mae'n ddiog iawn –

'Doedd e ddim yn mynd i frysio i neb' ac os gall mae'n dirprwyo.

Dangosir mor heriol yw yn yr hanesyn mae'n ei adrodd wrth Patric am y ffordd y bu iddo ymateb i'r dyn mawr gyda'r "siaced ledr, penglog ar y cefn". Mae hefyd yn gwrthod derbyn awdurdod Ms Martinelli.

Mae'n llygadu eiddo pobl eraill – watsh Mickey Mouse Patric, perl y ferch ddieithr, *paperweight* Ms Martinelli. Am ddwyn yr olaf y mae'n colli ei waith. Dywed nad yw'n dwyn yn aml "dim o'r gwaith 'ta beth" ond mae'n amlwg eu bod yn perchenogi eiddo pawb a lofruddiwyd ganddynt. Eto dylid cofio eu bod yn hael gyda'u harian:

- £20 i Tanwen am ganu
- £50 i Ellis am daith fer yn y tacsî

Cyfeiriadau at rywioldeb

Cyfeiria Pwdin Mawr yn ddirmygus at ei gydweithwyr – "Mr Entwistle, blydi pwffta" a Griffiths "Yr hen Sioni fenyw". Gwna sylwadau di-chwaeth – "Bob tlo ti'n plygu i godi lywbeth, Mama Losin, dw i'n gallu gweld weit lan dy ben-ôl di' (t. 28) ac wedyn wrth weld llun o ferch fronnoeth yn y papur ei chymharu â Mama Losin – "mae dy ditis di'n lot gwell na rhai honna' (t. 30). Gellid esgusodi'r sylwadau hyn yng nghyd-destun y penawdau mae'n eu darllen yn y papur newydd – "*Madonna strips for Pope*" – sy'n adlewyrch'r math o gymdeithas fas yn llawn ensyniadau rhywiol rydym yn byw ynddi. Ond erbyn diwedd y nofel cawn wybod fod gan Pwdin Mawr record am "GBH, trais, troseddau rhywiol gwyrdröedig." (t. 277)

Mama Losin

Disgrifiad corfforol: 'pwten gron o fenyw ... gwallt yn felyn dant-y-llew ond roedd y bonion yn frith-lwyd (t. 28) ... llais fel llygoden llais bach ewinedd-ar-wydr.'

Mae Pwdin Mawr yn meddwl ei bod yn edrych fel "pecini" (t. 101).

'Menyw fach od ... dipyn o gymeriad ... cot goch, sgarff felen, menig melyn, bwtsias rhwber gwyrdd llachar' yw disgrifiad Tanwen ohoni ond dywed fod ganddi "wedd hynaws a dymunol ... Serch hynny ni wenai yn aml." (t. 44)

Pwdin Mawr a Mama Losin

Disgrifiad y gyrrwr tacsï o'r ddau yw:

'Mae hi'n fenyw fach gron sy'n llifo'i gwallt yn felyn ac yn gwisgo dillad o bob lliw yn yr enfys: coch (wastad digon o goch), porffor, oren, gwyrdd, glas ac yn y blaen; ac ma' fe'n gawr o ddyb blewog, locsyn mawr, fel Sascwatsh. Bydd y ddau'n eista yn y cefn ac yn dal dwylo ac yn siarad â'i gilydd fel cariadon bach yn eu harddegau yn mynd mas 'da'i gilydd am y tro cynta' – siarad lol, iaith babanod!' (t. 113)

Y peth cyntaf sy'n ein taro yw **mor groesawgar** yw'r ddau sy'n cadw tŷ gwely a brecwast. Maent yn mynnu trin eu gwesteion fel aelodau o'r teulu. Teimla Patric eu bod 'yn ei drin, yn wir, fel y mab afradlon.' (t. 73)

Erbyn diwedd y nofel datgelir cyfrinach erchyll y ddau – maent wedi llofruddio 14 gwestai a chladdu'r cyrff yn yr ardd. Hyn sy'n esbonio eu hoffter o'r ardd – "yr ardd a ni, ni a'r ardd." (t. 101)
Yr ardd – yr **un** peth y byddent eisïau ei arbed pe bai tân.

Recreational Killers yw term y *Western Mail* amdanynt. Hwyl neu hobi oedd lladd iddynt. Ni chawn wybod pwy oedd wrth wraidd y drwg. Mae Mama Losin yn beio Pwdin Mawr,

"Fe 'nath y cyfan. Ac o'n i'n gorfod 'neud beth o'dd e'n gweud. O'n i'n ei ofni fe." (t. 278)

Yntau'n ei beio hi, "Cau dy ben. Arnat ti mae'r ffycin bai am bopeth." (t. 277)

Awgrymir eu bod ill dau wedi cwrdd yng ngharchar.

Ceir sawl cyfeiriad yn y nofel sy'n awgrymu fod rhyw nam ar y ddau. Cyfeiria Alys atynt fel 'cymeriadau lliwgar, doniol. Gwirion efallai.' (t. 236)

Dywed Ellis, 'W i'n credu bod rhywbeth yn bod ar y ddau. Dw i ddim yn siŵr beth yn gwmws. Heb fod yn llawn milltir. Heb fod i ben draw'r siwrnai. Os wyt ti'n deall be dw i'n feddwl.' (t. 114)

"rhith o berthynas arwynebol" [Gwenllian Dafydd – Adolygiad]:

Hyd nes i'r heddlu gyrraedd cawsom ddarlun o bâr cariadus, y ddau yn arfer iaith blentynnaidd wrth siarad â'i gilydd, yn chwarae gyda Shioli bach a Pwdin Mawr yn ofalus o Mama, "Paid â mynd mas 'to ... nes bod y barrug wedi cilio ychydig. Mae hi'n rhy oer, bydd dy fysedd yn gwingo." (t. 29)

Ond meddwl amdano'i hun yn unig mae Pwdin Mawr 'nawr ei fod dan fygythiad. Ei ateb i gwestiwn Mama Losin, "Be 'nawn ni?" yw "Dw i'n mynd i ddianc trwy'r cefn." (t. 276) Mae'r iaith blentynnaidd wedi diflannu a'r darlun o bâr lyfi-dyfi.

Is-gymeriadau

Cyflwynir nifer o is-gymeriadau ymhob llinyn storiol. Yn ôl Angharad Price pwrpas yr is-gymeriadau yw eu bod 'yn gymorth i'r plotiau gyd-lynu' ac 'i greu undod organig o fewn byd y nofel'.

Maent yn creu darlun llawn o gymdeithas ac yn eu tro yn gyfrwng i feirniadu neu ddychanu cymdeithas:

Mared

'menyw dal, gnawdol, gref; trwyn nobl, talcen uchel, aelïau fel adenydd brân ar led; gwallt brith trwchus wedi'i dorri ar ei gwar.' (t. 122)

Fe gwrddwn â hi yn siop y pentref, yn gwrthod siarad Saesneg, a Tanwen yn cyfieithu drosti. Yna, trwy sgwrs Mair Probert cawn wybod ei bod yn wraig ddeallus, academaidd oedd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg a Saesneg, ond wedi gadael Prifysgol Caerefydd ar ganol gwaith ymchwil. Mae hi'n byw bywyd meudwyes yn y goedwig. Amheuw'n mai Mared fwy na thebyg oedd y fyfyrwraig yr oedd Mal wedi ei cham-drin. Down i ddeall mai hi oedd y fam gyda'i merch a ddarluniwyd yn gofidio am fod merch fach arall wedi diflannu. Cawn wybod enwau'r efeilliaid ar ddiwedd y nofel – laith a Llên. A yw Mal, felly, yn euog o ladd ei ferch ei hun, gyda'i "hwyneb perffaith, Celtaidd, Gwyddelig"? Pa un? A yw'r academydd o ddarlithydd yn euog o ladd yr hyn y dylai fod yn ei drysori a'i hyrwyddo?

Mair Probert

Mae hi'n gynghorydd Plaid Cymru 'the (*Not Too Awfully Welsh*) Party of Wales'. Down i gwrdd â hi yn siop y pentref lle mae'n siarad Saesneg â'i chyd-Gymry am fod y siopwr yn Sais.

Staff yr Adran Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Caerefydd 'y labrinth o wydr a phlastig o'r chwedega' a'r academwyr 'mewn cornel yn hel clecs mewn Cernyweg canol':

Yr Athro Dedwydd Roberts a'i hiaith yn frith o eiriau Saesneg. Does ganddi fawr o gariad at ei swydd yng Nghaerefydd,

"Basai'r gwaith 'ma'n iawn oni bai am y blydi stiwdents" yw ei unig jôc (t. 49)

ac mae ei sylw ynghylch y ddarlith y mae i'w thraddodi yn Rhydychen yn arwyddocaol, yn dangos ei dirmyg at ei gweithle:

'... bydd hi'n braf cael darlithio yn fy hen *alma mater* – prifysgol go-iawn, yn lle'r blydi *factory* 'ma. Ac yn Saesneg hefyd. (t. 50)

Barn Sylvia amdani yw "Snob uffernol. 'Sdim byd yn cyfrif i honna ond Rhydychen a Chaergrawnt.

Weithiau wnaiff hi ddim siarad â rhywun oni bai bod gradd ganddo o Rydychen. A phan ddaw rhywun yma o Rydychen i draddodi darlith, wel, mae'r ffordd mae hi'n ymgreinio ac yn gwenieithu yn codi pwys arna i. Ych-a-fi." (t. 105)

Dr Dahmer Eynon – "Jôc enfawr oedd y Gymraeg iddo ac roedd e wedi gwneud ei enw drwy fod yn archelyn i'r iaith ... Roedd e wedi sefydlu *'The English Language Society'* gyda'r nod o gael *'the freedom to speak English anywhere in Wales'*." (t. 48)

"...y bastad gwrth-Gymraeg ac yntau'n fab i weinidog o Ystalyfera. Mae'n gallu siarad Cymraeg glân. Bradwr", yn ôl Sylvia. (t. 104)

Norman Prosser a oedd wedi gadael ei gopi o *Gweledigaethu'r Bardd Cwsc* gartref ac yntau'n darlithio arno ymhen pum munud.

Juno Hardacre

Un arall a ddaw dan lach Sylvia – "Blydi pwffta arall. Yn rhedeg ar ôl y bechgyn pert ym mhob blwyddyn newydd." (t. 105)

Mae'n cynnal perthynas â Jamie Swan 'carwriaeth gyfrinachol, y gwyddai pawb (yn staff ac yn fyfyrwyr) amdani; nid bod Juno a Jamie yn ymwybodol o hynny. Roedden nhw'n dal i wneud pob ymdrech i guddio'r peth drwy beidio â cherdded gyda'i gilydd, drwy osgoi siarad yn y coridorau, drwy gwrdd mewn llefydd diarffordd, caffes amhoblogaidd ac ambell gornel.' (t. 153)

Yr Athro Emeritws Sylvia Jones – Hithau'n cadw'i rhywioldeb yn gyfrinach.

'Roedd hi'n hen pan oedd e'n fyfyrwr ifanc wrth ei thraed erstalwm yn cymryd nodiadau o'i darlithiau hynod o glogyrnaidd ac undonog ar Charles Edwards ... gweithiai ar ei phapurau ysgolheigaidd troednodlyd, pedestraidd a henffasiwn ... Roedd hi'n ddiflewyn-ar-dafod ... y tu ôl i gefnau pobl ... yn hen glecast ddauwynebog.' (t. 104)

Heulwen yr ysgrifenyddes – Cwrddwn â hi yn ei swyddfa, yn ateb galwadau ffôn. Mae'n ddiamynedd gydag ymholiadau academwyr ond

'Roedd gan Heulwen ddigon o amser i'w ffrindiau bob amser a rhoddai ei holl sylw iddynt.' (t. 49)

Ceryddir hi gan yr Athro oherwydd ei diffygion,

'Mae gen ti dafod yn dy ben. Beth am ddweud "May I take a message ...' (t. 50)

Yn nes ymlaen down yn ymwybodol iawn o dafod Heulwen (t. 51 a t. 117)

Darlunnir byd ffals yma – ynys fechan o ffug Gymreictod. Ymdrinia Gwynn ap Gwilym â darlith Mal yn ei adolygiad:

'... enghraifft o falu awyr bocsachlyd a disynnwyr ...'

Ceir beirniadaeth ddeifol ar sefyllfa'r Gymraeg:

'Fyddai neb byth yn codi cwestiwn ar ddiwedd gwers Gymraeg mewn prifysgol. Am un peth roedd y myfyrwyr yn rhy ansicr o'u Cymraeg i agor eu cegau. Peth arall, prin iawn oedd yr efrydwy'r a oedd wedi deall y seminar.' (t. 62)

Ellis Wynne – y gyrrwr tacsï

Yn ddiarwybod iddo mae'n cludo nifer o'r gwesteion i dŷ gwely a brecwast Pwdin Mawr a Mama Losin. Mae llif meddyliau Ellis (Rhan 2 pennod 3) fel pe'n mynegi llais y bobl, fel y corws mewn drama Roegaidd.

Enwyd ef ar ôl Ellis Wynne (1671-1734), gŵr eglwysig ac awdur y clasur rhyddiaith *Gweledigaethu y Bardd Cwsc*.

Hedd Wynne – y gyrrwr lori

'Dyn ifanc sbectolog, deallus yr olwg, ymenyddol hyd yn oed ... yr unig yrrwr lorïau yn Ynys Prydain a oedd yn arbenigwr ar y gynghanedd groes o gyswllt' (t. 208-9) – darlun dychanol.

Ganddo ef y cafodd Mal ei gario i Aberdyddgu.

Enwyd ef ar ôl Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) (1887-1917), a laddwyd 'ym Mrwydr Pilken Ridge, Ffrainc ar 31 Gorffennaf 1917. Yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw y mis Medi canlynol dyfarnwyd y Gadair i'w awdl ef, *Yr Arwr*, ond pan gyhoeddodd yr Archdderwydd fod y bardd wedi ei ladd yn y Rhyfel, gorchuddiwyd y gadair ag amwisg ddu'. (*Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*)

Ai cysgod o Mal yw Hedd Wynne? Mae'n cyfeirio at nifer o lenorion enwog, yn gyrru'n wyllt, yn cael y profiad o weld merch fach yn yr union fan â'r ferch a laddodd Mal, mae ei briodas yntau wedi chwalu.

Dwbl (*Doppelgänger*)?

Trwy'r ddau frawd y llwydda'r heddlu i ddod o hyd i Mal ac arestio Pwdin Mawr a Mama Losin, felly dyma is-gymeriadau sy'n allweddol yn natblygiad y stori.

Themâu

* ... *thema pob nofel o bwys yw'r hyn sy'n digwydd i ddyd mewn rhyw argyfwng yn ei fywyd. A'r peth hwnnw mewn gair yw 'Adnabod'.* (Islwyn Ffowc Elis)

Mae Maldwyn Taflun Lewis, yn amlwg, yn wynebu argyfwng yn ei fywyd yn y nofel hon.

Gellid dweud mai dilyn llwybr Mal at hunan-adnabyddiaeth a wnawn yng nghwrs y nofel gan ei fod wedi ei orfodi i ymateb i'r ddamwain a'i weithred lwfr yn gyrru i ffwrdd a pheidio â chyfaddef. Yn raddol daw i'w ffeiddio ei hun. Down ninnau i adnabod Mal. Erbyn diwedd y nofel darlun gwahanol iawn sydd gennym o'r cymeriad hwn.

Mae ei weithred yn peri i unigolion eraill orfod cloriannu hefyd – Mared a Toni.

Daw Tanwen hithau i'w hadnabod ei hun yn well trwy ymateb i'w hamgylchiadau.

Daw'r darlennydd hefyd i adnabod fel mae'r cymeriadau o un i un yn diosg y masg.

Mae ymson Alys ynghylch y lluniau a welsai yn yr orielau yn ddiddorol:

'Lluniau o bobl Y gwirionedd y tu ôl i'r plisgyn arwynebol ...' (t. 237-8)

* Ymdrinnir â pherthynas pobl â'i gilydd neu'r **diffyg perthynas**, y rhagrith a'r twyll o fewn perthynas ag eraill.

Mae yma adlais o ymdriniaeth Saunders Lewis â'r thema "perthynas" –

'Does neb ar y ddaear yma'n deall ei gilydd;

Y gŵr sy'n cofleidio'r wraig a'r wraig sy'n ateb â chusan,

Dwy blaned sy'n rhwym i'w cylchau; chlywan nhw mo'i gilydd fyth. [Siwan t. 83]

Sylwer ar y diffyg cyfathrebu, y diffyg cydymdeimlad sydd rhwng:

- Mal a Toni (Gw. nodiadau ar y cymeriadau)
- "Rhith o bethynas arwynebol" Pwdin Mawr a Mama Losin
- Alys a'i thad

'Doedd hi ddim yn gwranddo arno fe, doedd e ddim yn gwranddo arni hi chwaith. Beth oedd diben siarad?' (t. 172)

Cawn fod perthynas gyfeillgar rhwng Tanwen a Camel ond mae Tanwen yn cyfaddef wrth Alys wedi i Camel adael

'... 'nes i erioed ddysgu beth oedd ei enw go-iawn ... 'nes i ddim gofyn. A 'nath e ddim cynnig.' (t. 286)

* Darlunnir anniddigrwydd unigolion sy'n **chwilio am ddihangfa**/yn dyheu am fod yn rhydd (Mal, Toni, Lois). Mae'n amlwg nad yw eu bywyd wrth eu bodd. Mae unigrwydd yn peri gofid i sawl un ohonynt.

* Mae yma unigolion eraill y gallem eu hedmygu am eu bod yn arddel **gwerthoedd moesol** – cydymdeimlad, tosturi, gofal, cariad (Tanwen, Alys, Camel, Mared)

* Mae yma "themâu sy'n ymwneud â **natur ein bywyd cyfoes** Cymreig a Chymraeg"

- gwrthdaro rhwng y Gymraeg a'r Saesneg

Sylwer ar agweddau'r canlynol at yr iaith:

academwyr (gw. nodiadau ar Staff yr Adran dan Cymeriadau)

Radio Cymru

Cymry Cymraeg Aberdyddgu (cofier am sylwadau'r gyrrwr tacsi)

trigolion Caerefydd (noder sylwadau Mal am yr ymateb a gâi yn y siopau)

mewnfudwyr (siopwr Llanhowys, Mrs Turvey ac ati)

'sawl mewnfudwr ar ôl ugain mlynedd yn y wlad sy'n dal i ddweud "diolch" a dim mwy' (t.179)

y wraig a'r llanciau ar y bws gydag Alys (Rhan 3 Pennod 19)

cf. Mared a Tanwen, Ellis Wynne a Hedd Wynne

- biwrocratiaeth (sefyllfa'r di-waith a'r digartref – hanes Camel)

Noder sylwadau Ellis Wynne hefyd.

- materoldeb a diffyg moesoldeb (Mal, Toni, Pwdin Mawr a Mama Losin)

- rhywioldeb

Sadomasocistiaeth (Mal a'r butain, Lois)

Hoywon (sylwadau Sylvia, sylwadau Pwdin Mawr, yr Americanwr)

Lesbiaid (Sylvia)

Ffeministiaeth (Alys, Tanwen, Mared)

Gwyrdröedig (Pwdin Mawr)

- trosedd a thrais

Mal yn gyrru i ffwrdd wedi lladd y ferch fach a gwrthod cyfaddef ei fai
y llanciau meddw yn ymosod ar Camel

trasiedi'r gŵr a'r wraig yr ymosodwyd arnyn nhw yn eu cartref (Rhan 3 Pennod 5)
hanes Mared.

Trafod Iaith ac arddull

Bydd angen i chi drafod iaith ac arddull yr awdur gan roi sylwadau am effaith y nodweddion hynny. Cofiwch hefyd fod angen croesgyfeirio â gweithiau eraill. Dyma rai syniadau i chi, ond cofiwch wneud casgliad personol o rai sy'n apelio'n arbennig atoch chi.

NODWEDD IAITH/ARDDULL	ENGHRAIFFT	SYLWADAU AR EFFAITH Y NODWEDD
Bathu geiriau (berfau)	'chwardd-sgrechiodd';	Arddull 'dros ben llestri'; dangos dyfeisgarwch a hyder yr awdur; creu gair onomatopëig ...
Ansoddeiriau blodog	"tafell o dôst menynnog a marmaledlon"	Ansoddeiriau blodeuog; addas iawn i gyfleu bwyd cymeriad tew, ffaidd Pwddin Mawr; llwyddo i greu darlun gweledol ...
Geirfa safonol	'cathfa'; 'cachflwch'; 'borebryd'	Addas iawn i bortreadu cymeriadau hunanol a materol Mal a Toni, sy'n ceisio rhoi'r argraff eu bod yn bobl dosbarth canol. Iaith safonol, grachaid.
Cyffelybiaeth	Cloch 'yn canu fel cnocell y coed yn curo darn o fetel yn ei ben.'	Dangos diffyg diddordeb/ymroddiad Pwddin Mawr i'w swydd – dyn diog; amharod i ateb galwadau eraill.
Eironi	Bro Dirion = Gwely a Brecwast Pwddin Mawr a Mama Losin	Adlais o chwedl Arthur yn mynd i Ynys Afallon (Bro Dirion) lle dylai popeth fod yn berffaith? Cofiwch fod croeso cynnes i'r llety hwn a'r gwesteion yn disgwyl cael lle cysurus, ond yn anffodus, dyma ble cânt eu llofruddio.
Hiwmor	'Clywsai yn rhywle fod y sodlau pigog 'ma yn gwneud mwy o niwed i'r llawr na throed eliffant. Diolch i'r drefn, prin oedd yr eliffantod a ddeuai i'r swyddfa.'	Dangos atgasedd Pwddin Mawr at Ms Martinelli ac amlygu'r gwrthgyferbyniad rhwng haenau cymdeithas – Pwddin Mawr ar waelod cymdeithas a Ms Martinelli yn cynrychioli'r fenyw bwerus.
Trosiad	Mama Losin 'yn garnifal o groeso'	Cyfleu'r ffaith bod lladd pobl yn sioe iddynt.
Chwarae ar eiriau	'Nid trwy datws yn unig y bydd byw ci.'	Hiwmor. Chwarae ar adnod o'r Beibl: 'nid ar fara yn unig y bydd byw dyn.'

Dan Gadarn Goncrit

NODWEDD IAITH/ARDDULL	ENGHRAIFFT	SYLWADAU AR EFFAITH Y NODWEDD
Rhagrith	'Dau chwerthiniad ffug, llawn tyndra a dicter'	Cyfleu perthynas arwynebol Mal a Toni (cf. Leni)
Dychan	'CWSG'	Enw ar y mudiad Cymraeg – cyfleu barn/rhagfarn yr awdur at fudiadau 'honedig weithgar' Cymraeg.
Cyfosod golygfeydd	Pennod 1 (rhan 1) – taro'r ferch fach > Pennod 5 (rhan 1) – Toni a'r gath: "Fy merch fach ... wedi marw"	Techneg glyfar yr awdur – mae'n llwyddo i gamarwain y darlennydd.
Cyfeiriadaeth	'Cynddydan ... Charlton Heston yn <i>Ben Hur</i> ... Frank Sinatra ... Pwyll ... Rhiannon ... R.T. Jenkins ...'	Cyfleu awdur dysgedig/gwybodus – mewn amryw feysydd. Ydy'r dechneg hon yn llesteirio'r darlennydd neu yn cryfhau'r ddelwedd o Mal yn teithio'n unig yn y nos? Ydy'r awdur jyst yn brolio ei wybodaeth?
Ailadrodd	Ardd = 'Baswn i'n cadw'r ardd, Mama Losin, baswn i'n cadw'r ardd ...' 'Roedd yr ardd yn rhan ohonyn nhw, eu bywyd nhw. Allen nhw byth adael yr ardd, felly, doedden nhw ddim yn gallu gadael y tŷ, tân neu beidio.' ' "Yr ardd a ni, ni a'r ardd," meddai Mama Losin ...'	Ychwanegu dirgelwch ynglŷn â'r ardd. Pam mae'r ardd mor bwysig? Pa gyfrinachau sy'n llechu yn yr ardd?
Gwrthgyferbyniad	Syniadau Pwddin Mawr am Ms Martinelli: 'Doedd dim tro yn ei chorff, dim tro yn ei chnawd, roedd hyd yn oed ei choesau'n unionsyth. Mor wahanol i Mama Losin a oedd yn droeon ac yn blygion meddal, melfedaidd i gyd, fel <i>gateau</i> hufennog, ei hoff deisen.'	Cyfleu cymeriad gwyrdröedig Pwddin Mawr a'i obsesiwn â phethau elfennol bywyd: bwyd a rhyw.
COFIWCH: dim ond enghreifftiau sydd yma		

Cyfeiriadaeth (*Allusion*)

Gall cyfeiriadaeth gyfoethogi'r darlun i'r darlennydd ond, wrth gwrs, mae'n rhaid i'r darlennydd fod yn gyfarwydd â'r gwreiddiol i werthfawrogi'r cyfeiriad. Ystyriwch a yw'r cyfeiriadau i gyd sydd yn y nofel hon yn cyfoethogi eich darluniau chi. A oes yma gormod yma? Cymaint fel eu bod yn rhwysr i chi fwynhau rhediad y stori? Ai gwneud sioe o'i wybodaeth mae'r awdur ambell waith? A yw'n fwrriadol yn llwytho â chyfeiriadau? Ai 'parodio' y mae? Ai techneg yw hon i'w alluogi i ddychanu yn effeithiol? (Ystyrier er enghraifft Rhan 3 Pennod 6 – a yw'r Eisteddfod Genedlaethol dan lach?)

Caneuon:

'Caneuon sy'n hawlio'r llwyfan cyfeiriadol yn y nofel hon ... a chaiff Frank Sinatra a Joni Mitchell eu dyfynnu'n aml.' (Gwenllian Dafydd – *Barn*)

Ceir dyfyniadau o ganeuon: (cf. arddull Caradog Pritchard o gyfuno geiriau i gyfleu naws y canu)

- Frank Sinatra Rhan 1 Pennod 1 – geiriau arwyddocaol yn y cyd-destun
- Dusty Springfield Rhan 2 Pennod 3
- ailchwarae'r un hen dâp ar y daith trên Rhan 2 Pennod 6
- Grace Jones – *Warm Leatherette* – Lois (t. 11-13, t. 132)
- Joni Mitchell – *The Gallery* – Tanwen (t. 41-46)
- Bob Dylan (t. 199)

Gall Pwdin Mawr gynnig amrywiaeth o gerddoriaeth i'w westeiwr – Max Bygraves, Perry Como, Val Doonican, Grace Jones (t. 205)

Ar dâp y metro – mynachod yn llafarganu gweddïau Gregoraidd – tâp Toni

Yna ceir ambell gyfeiriad at y sîn Gymraeg:

- Toni ac Aloma ac emynau Cristnogol yn nhŷ Pwdin Mawr a Mama Losin
- Llio Millward yn nhŷ Toni amser brecwast
- Plethyn (t. 217)

Mae Tanwen yn canu *Y Gelynnen* yn y goedwig, cân draddodiadol. Mae'n ddewis addas iawn i'r lleoliad, nid yn unig am ei bod ynghanol coed ond yng nghyd-destun y nofel mae hi yno o fewn ynys o Gymreictod, a llais (y ferch fach arall) yn uno yn y gân. (t. 272)

Cyfeiriadau llenyddol:

- Cynddylan – R.S. Thomas
- Bro Dirion – Tir na n'Og – eironi – cartref Pwdin Mawr a Mama Losin
- 'yn cyfarch pawb heb adnabod neb' *Y Ferch ar y Cei yn Rio* T.H. Parry-Williams
- 'Ei uffern bersonol, aflonydd, leddf ...' (t. 232) Adlais o soned R. Williams Parry – *Gadael Tir*

Odid na ddyry'r Gŵr a garai'r ffridd
Ac erwau'r unigeddau wedi nos,
I un na wybu gariad ond at bridd,
Ryw uffern lonydd, leddf ar ryw bell ros,
Lle chwyth atgofus, dangnefeddus wynt
Hen gerddi gwesty'r ddaear garodd gynt.

- Y Chwedlau – Pwyll a Rhiannon (t. 8, t. 97), Branwen (t.273), Blodeuwedd ac anifeiliaid y Chwedlau – y dylluan, y broch a'r ystlum (t. 7 a'r ailadrodd)
- Arwyr hanesyddol fel y brenin Arthur – “*King Arthur and Lady Guinevere*” (t. 204)
- Buddug a Heledd (t. 273)
- Lleucu Llwyd a'r Canu Angau (t. 234)

Cyfeirir yma at gywydd Llywelyn Goch ap Meurig Hen (1360-90), 'y gyntaf a'r orau' o fath newydd o ganu, sef canu marwnad i ferch, yn ei chyfnod.

'Arbenigwydd y gerdd hon yw ddarfod i'r awdur ddefnyddio ffurf gyffredin ac adnabyddus ar ganu serch, sef y serenâd, i ganu marwnad. Cân i ferch yn ei bedd yn union fel y canwyd ganwaith i ferch yng nghlydwch ei thŷ gan fardd y tu allan.' (Thomas Parry – *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900*)

- R.T. Jenkins yn chwilio am Landeloy (t. 97)
- Gwladus Rhys hithau:
Heb air wrth neb eis allan drwy yr eira,
Pan oedd y gwynt yn cwyno drwy y pîn
- Enwir: Morgan Llwyd a Theophilus Evans (t. 208)
- Y Bardd Cwsc (t. 190)
- Mae Hedd Wynne yn gwneud sioe o'i wybodaeth – yn sôn am awdlau William Morris a Hedd Wyn. (t.215) Mae'n sôn am brifeirdd yr Eisteddfod ac am gyfrolau R. Williams Parry (t. 216) ac yn rhestru eraill (t. 217) – y cyfan i gyfleu ei edmygedd o farddoniaeth Gymraeg.
- Cyfeiriadau crefyddol – Un cam ar y tro, fy Iesu (t. 231) Un bocs ar y tro, fy Iesu (t. 257)

Cyfeirir at awduron Lloegr

- Dickens ... “fel cardotwyr o oes Dickens” (t. 174) ... ‘fel ysbryd y Nadolig Presennol yn stori Dickens’
- Lewis Carroll (t. 61)
- Dr Jekyll yn troi'n Mr Hyde (t. 95)

a dau o lenorion Ffrainc:

- Proust – (1871-1922) nofelydd, awdur *In Search of Lost Time*
- Antoine de Saint Exupéry – (1899-1944) llenor, bardd, peilot yn hedfan awyrennau'n cludo'r post.
Cyfeirir at *Vol de Nuit* (t. 96)

- Mae'n cymharu Pwddin Mawr i gymeriad Guignol, pyped tebyg i Mr Punch. Y Grand Guignol yw dull poblogaidd yn Ffrainc o gyflwyno melodrama yn ymdrin â llofruddiaethau, trais ac ati. Defnyddir y term heddiw wrth sôn am ffilmiau arswyd.

Ffilmiau:

- Ben Hur – 'teimlai fel Rhufeiniwr yn ei siarlot, fel Charlton Heston' (t. 6, t. 95)
- Star Wars,
- Sound of Music,
- Wizard of Oz (t. 203)
- My Fair Lady (t. 203)

a rhai o sêr y byd ffilm

- Judy Garland a ddaeth yn eicon i'r hoywon a deimlai y gallent uniaethu â hi am eu bod yn credu ei bod hithau yn ddiodefwr. Bu farw yn 47 oed oherwydd effaith cyffuriau ac ymhen llai na mis dechreuwyd ymgyrchu dros hawliau hoywon. (t. 203)
- Audrey Hepburn (t. 203)
- Mia Farrow a Mae West (t. 238)

Cyfeiriadau amrywiol eraill:

- Brünnhilde (t. 106) – Arwres ym mytholeg yr Almaen, brenhines ryfelgar. Portreadir hi gan Wagner.
- Cecil Beaton – ffotograffydd a chynllunydd llwyfannau a gwisgoedd cyfnod ar gyfer ffilmiau. (t. 203)
- Gwleidyddion – Profumo a Rod (t. 109)
- Comediwyr: Morecambe a Wise (t. 195)
- Newyddiadurwyr – Anna Raeburn a Claire Rayner, yn enwog am eu cynghorion ar sut i gynnal perthynas ag eraill. Anna Raeburn yn ddarlledwraig hefyd. (t. 133)
- Nofelwyr Americanaidd – Heller a Philip Roth (t. 185) – Heller – nofelydd dychanol, awdur storïau byrion a dramodydd. Daeth teitl ei nofel *Catch 22* yn derm a ddefnyddir yn gyffredin i gyfleu mor rhwystredig yw ceisio delio â biwrocratiaeth ynyd. Mae'r nofel yn portreadu Americanwyr oedd yn y lluoedd arfog yn yr Ail Ryfel Byd.

Philip Roth – nofelydd a ddaeth yn enwog fel sylwebydd cymdeithasol a dychanwr gwleidyddol.

- Cathy McGowan – Dechreuodd ei gyrfa ym myd ffasiwn, yn gweithio i'r cylchgrawn *Woman's Own*. Daeth yn gyflwynydd rhaglenni pop yn y 60au, cyfnod y Beatles a'r rhaglen boblogaidd – *Ready Steady Go!* ac yn newyddiadurwraig. Yn ei dydd roedd yn arwain y ffasiwn –'role model'. (t. 153)
- Blaze Starr – seren llwyfannau bwrlesg yn America (t. 238)
- Diana Duff Frazier – Americanes – *Glamour Girl* 1938 a'i llun ar glawr y cylchgrawn *Life*. Yn 1966

tynnwyd ei llun eto ar gyfer y cylchgrawn *Esquire*. Erbyn hynny roedd golwg flinedig, hen, hyll arni ac roedd yn byw bywyd meudwyes. (t. 238)

Gall fod arwyddocâd i enwau cathod Toni –

- Jezebel – gwraig y Brenin Ahab. Addolai Baal gan wrthwynebu Elias y proffwyd. Hi a fynnodd berchenogi gwinllan Naboth. Cosbwyd hi trwy ei rhoi i farwolaeth. Yn ddiweddarach daeth i gynrychioli puteiniaid – bradychu
- Pandora a agorodd y bocs – un na ellid ymddiried ynnddi
- Titus – Ymerawdwr Rhueinig – seicopath
- Cleopatra – Brenhines yr Aifft a gyflawnodd hunan-laddiad.

Geirfa

Allwedd: (g) = enw gwrywaidd, (b) = enw benywaidd, (a) = ansoddair, (be) = berf

adeiladwaith (g)	structure	cynllwyn (g)	a plot
adlais (g)	echo	cysylltu (be)	to join
adlewyrchu (be)	to reflect	chwilfrydedd (g)	curiosity
adwaith (g)	reaction	dadlennol (a)	revealing
agoriad (g)	opening	datblygu (be)	to develop
ailadrodd (be)	to repeat	datgelu (be)	to reveal
amrywio (be), amrywiol (a)	to vary, varied	datrys (be)	to solve
amwys (a) amwysedd (g)	ambiguous	delwedd,-au (b)	image,-s
arallfydol (a)	supernatural	difraw (a)	indifferent
arwyddocâd (g) arwyddocaol (a)	significance, significant	dihiryn, dihirod (g)	rascal,-s
ategu (be)	to confirm	dilyniant (g)	sequence
atgof,-ion (g)	a memory, memories	dirgelwch (g)	mystery
awdur,-on (g)	author,-s	diwedd glo (g)	ending
awgrym (g), awgrymu (be)	a suggestion, to suggest	dolen gyswllt (b)	link
bradychu (be)	to betray	dryswch (g)	confusion
bygythiad (g), bygwth (be)	a threat, to threaten	dychan (g), dychanu (be)	satire, to satirize
camarwain (be)	to mislead	dyfalu (be)	to guess
cofiadwy (a)	memorable	dyfyniad,-au	quotation,-s
cyd-ddigwyddiad	coincidence	edefyn,-nau	thread,-s
cydblethu	to entwine	egwyddor	principle
cyfarwydd	familiar	eironi	irony
cyfeiriadaeth	allusion	elfen,-nau (b)	element,-s
cyflwyno (be)	to present	euog (a), euogrwydd(g)	guilty, guilt
cyfoes (a)	contemporary	gafaelgar (a)	gripping
cyfosod (be)	to juxtapose	gweithred,-oedd (b)	action,-s
cyfres,-i (b)	series	gwrthbwynt (g)	counter-point
cyfrinach,-au (b)	secret,-s	gwrthdaro (g)	clash
cyfrwys (a)	cunning	gwrthyferbynnu (be)	to contrast
cyffrous	exciting	hawlio (be)	to claim

Dan Gadarn Goncrit

Parhâd

hiliol (a)	racist	rhagfarn (b)	prejudice
hunanladdiad (g)	suicide	rhith (g)	phantom, illusion
llenor,-ion (g)	literary person,-s	sylw, sylwadau (g)	observation,-s
lleoliad,-au (g)	location,-s	sylwebydd (g)	commentator
llinyn,-nau	strand,-s	twyllo (be)	to cheat
llofruddiaeth (b)	murder	tyndra (g)	tension
nofel,-au (b)	novel,-s	tynged (b)	fate
pennod, penodau (b)	chapter,-s	undod (g)	unity
perthynas (b)	relationship	ymateb (be)	to respond
pryder (g)	anxiety	ymson (g) /(be)	soliloquy/ to soliloquise

plot astrus – intriguing plot

golygfa allweddol – key scene

prif gymeriad – main character

arddull flodeuog – flowery style

brawddeg agoriadol – opening sentence

llif meddyliau – stream of consciousness

llinyn storiol – story line

sylwebydd cymdeithasol – one who comments on society

yn fy marn i ... – in my opinion

credaf fod ... – I believe that

teimaf fod ... – I feel that

gwelir bod ... – It can be seen that ...

gallaf gydymdeimlo â ... – I can sympathise with

gallaf uniaethu â ... – I can empathise with ...

llwydda'r awdur i ... – the author succeeds in ...

disgrifia'r awdur ... – the author describes ...

dyfynnaf o'r nofel – I quote from the novel

Croesgyfeirio

'Y Tro Olaf' – Damien Walford Davies o *Canllaw i Greu*

Cymharer y disgrifiadau o berthynas Mal a'i gar

Si Hei Lwli Angharad Tomos

Creu tyndra – cyflymder y car

"Cur y Nos"

Cymharer y thema o gladdu corff mewn ardd gerrig

Tri Mochyn Bach – Eurig Wyn

Cymharer y thema o gladdu – pen person o dan y tomatos yn y tŷ gwydr

Dydd Nadolig o'r nofel *Wele'n Gwawrio* – Angharad Tomos

Cymharer Nadolig Alys

Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr – Alun Jones

cf. Sylvia a a Gladys, Drofa Ganol

cf. pennod dawel i gloi

Mal a Richard Jones– eisiau dianc

Nodiadau ar gyfer atebion i gwestiynau enghreifftiol

Dadansoddwch berthynas Maldwyn Taflun Lewis a'i wraig Toni

- Darlithydd yn Adran Astudiaethau Celtaidd Caerefydd sydd 'yn lico bod ar y teledu ... a ti'n lico arian' yn ôl Toni.
 - Disgrifia Sylvia ef fel 'Hen greadur diog, blonegog. Dim gwaith yn ei groen e.'
 - Gŵr canol oed boliog yn hoff o yrru ceir cyflym fel yr Alfa Romeo 3.0 V6 a gwranddo ar ganeuon Frank Sinatra wrth yrru.
 - Mae'n cael mwynhad rhywiol wrth fynd at Lois a chael ei chwipio ganddi. Cuddia'r ymweliadau hyn drwy dwyllo ei wraig, Dywed ei fod yn darlithio i gangen o Ferched y Wawr.
 - Ei ail briodas yw ei briodas â Toni a cheir awgrym arall nad yw'n briodas hapus gan ei fod wedi cael perthynas ag un o'i fyfyrwyr ymchwil.
 - Mae'n amlwg nad yw'r berthynas rhyngddynt yn un gariadus. Mae Mal yn gwneud hwyl am ben y ffordd mae Toni'n siarad Cymraeg. Ac yntau'n ddarlithydd yn y Gymraeg gallem ddisgwyl iddo geisio'i helpu. Mae e'n gorfod meddwl pa enw i'w ddefnyddio i'w chyfarch hyd yn oed: 'Fyddai fe byth yn galw Antonia yn Antonia ... Byth yn defnyddio'i henw ... Doedd e ddim wedi defnyddio unrhyw enw ers nid oedd yn cofio pryd.'
- Mae ceisio cuddio'r ffaith ei fod wedi lladd y ferch fach yn creu mwy o dyndra.
- Ni lwyddodd Toni i ffurfio perthynas â merch Mal o'i briodas gyntaf, Tanwen. Ei chathod yw ei phlant ac y mae'n galaru am Cleo fel mam wedi colli plentyn.
- Mae'n dibynnu ar y botel fodca am gysur.

Pa awgrymiadau a geir yn y nofel o'r anfadwaith a ddigwydd tu ôl i'r llenni yn 52 Stryd Wellington?

- Ceir cyfeiriadau awgrymog at yr ardd: 'o gwmpas y greigfa mae 'na sgerbydau blodau ...' Yr ardd yw'r un peth y byddent am ei gadw pe bai tân, a hynny am fod cymaint wedi ei guddio yno wrth gwrs. Disgrifir y 'rhes o slabiau hirsgwar o goncrit tua chwe throedfedd wrth ddwy a hanner' sef maint bedd a dywed Pwddin Mawr, "Bydd yr ardd yn goncrit i gyd cyn bo hir Mama Losin a be 'nawn ni wedyn?"
- Dywedir bod ystafell Pwddin Mawr yn y coleg yn estyniad o'i gartref ac yn 'gyfadran o'u caer yn erbyn y byd'.
- Wrth ddychwelyd adref a gweld yr arwydd 'No Vacancies' gwyddai Pwddin Mawr fod noson o hwyl

yn ei ddisgwyl.

- Ar ôl cael ymwelwyr ceir sôn fod 'lot o waiff ... Gwaiff clirio lan ar ôl yr holl hwyl ...'
- Mae Tanwen a'r gyrrwr tacsï yn cyfeirio at eu haelioni – £20 i Tanwen, £50 i'r gyrrwr tacsï.
- Dro ar ôl tro cyfeirir at bethau oedd yn eiddo i'r gwesteion sydd bellach yn eiddo iddyn nhw: 'ei gael ar ôl un o'r gwesteion wnaethon ni' yw hanes y ci. Patric oedd biau'r oriawr Mickey Mouse, llygadodd Mama Losin y perl oedd biau'r ferch ddienw ac yn y caffï roedd ganddi 'fodrwy newydd sbarcli' ac fe synnai 'ei bod yn ffitio i'r dim.'

Awgrymiadau am gwestiynau eraill

Awgrymiadau yn unig yw'r rhain. Caniateir i'r ymgeiswyr dorri eu cwys eu hunain wrth ateb ond rhaid cyfiawnhau barn gyda thystiolaeth.

Sut ddarlun a gawn o'r gymdeithas yn Aberdyddgu?

Pa ofnau sy'n poeni'r gwahanol gymeriadau yn y nofel?

Oes gormod o gymeriadau eithafol o wahanol yn y nofel?

Disgrifiwch fywyd y cymeriadau tlawd yn y nofel.

Dadansoddwch yr elfen o ragrith a welir yn amlwg iawn yn y nofel.

Dadansoddwch yr elfen o ddychan a gawn yn y nofel.

Disgrifiwch y gwrthdaro yn y nofel a'r tyndra rhwng cymeriadau.

A yw'r awdur yn amrywio ei iaith a'i arddull yn y nofel?

Ydych chi'n cytuno ag arbrawf Mared i guddio'r ddwy efail a'u gwarchod rhag y gymdeithas?

Cwestiwn synoptig enghreifftiol:

Ydych chi wedi darllen am briodas arall mewn trafferthion tebyg i un Maldwyn Taflun Lewis a'i wraig?

Adolygiadau

Dyma sawl barn i'w hystyried – Ydych chi'n cytuno? Rhowch resymau dros eich safbwynt.

- Y nofel yng Nghymru – MYND 1982

Camp y nofelydd ydy creu digon o amgylchiadau ac argyfyngau i wynebu'r cymeriadau, rhai ohonyn nhw'n brofiadau allanol a rhai ohonyn nhw'n brofiadau mewnol.

- Broliant clawr *Dan Gadarn Goncrit*

Pwnc mawr pob nofel ydy rhagrith. Mae'r nofel yn codi'r caead ar ragrith pobl ac yn gwneud iddyn nhw wynebu'r gwir amdanyn nhw eu hunain.

Dyma nofel ddirgelwch sy'n cuddio sylwebaeth gymdeithasol graff ar natur ein bywyd cyfoes.

- Gwynn ap Gwilym

'stori dan gamp, a honno wedi ei gwau i'w gilydd yn gelfydd . . . cymeriadau lliwgar . . . cofiadwy . . . cynllunio athrylithgar.'

'Y mae'r nofel hon yn gweithio'n odidog ar sawl lefel. Y mae ynddi arlliw stori ysbryd. Y mae dwy stori dditectif wedi'u cydblethu drwyddi. Y mae ynddi sylwebaeth gymdeithasol ddeifiol a dychan clyfar.'

- Gwenllian Dafydd – *Barn*

Plot yn llawer rhy wan ac amlwg – hanes Fred a Rosemary West

... nofel realaidd? Ie, ar y wyneb. Er bod awgrym o chwarae â'r rhithiol yn ymddangosiad y ferch ... fe esbonnir y cwbl maes o law ... a chawn ddiweddglo bach crwn a thaclus.

Mae'n nofel ddarllenadwy, llawn hiwmor, sydd wedi creu awyrgylch tref fach yn benigamp.

- Angharad Price

'... mae elfennau dychanol ym mhortread yr awdur o'r prif gymeriadau ... Ond mae goslef garicaturaidd y dychan hwnnw ... yn ogystal â rhan 'ddifrifol' y prif gymeriadau yn natblygiad realaidd a rhesymegol y stori, yn cyfyngu ar awch y dychan. Gyda'r is-gymeriadau, yn hytrach, y gweliir ar ei finiocaf y dychan cymdeithasol sydd yn rhan mor bwysig o waith Mihangel Morgan ... ac sydd yn rhoi cymeriad unigryw i'r nofel ias a chyffro hon.'

'... Radio Cymru 'yn darlledu rhaglen Gymraeg yr adeg honno o'r bore' (yn wahanol, fe awgrymir, i'w rhaglenni weddill y diwrnod). Yn wir, gyda Radio Cymru y gwelir cic orau'r dychanwr hwn i abswrdaeth ein diwylliant bob-dydd pan fo'r hyn a ymddengys bron yn ffantasiol yn y nofel yn cael ei drympio bob tro gan 'realiti': swreal, yn wir, yw'r siarad-babi a ddefnyddia Tada Pwdin Mawr a Mama Losin gyda'i gilydd, ond fe gyfeirir yr un pryd at gân Toni ac Aloma am 'y tri mochyn bach yn deud soch, soch' sydd ar y radio, a dyna roi taw ar 'synnwyr cyffredin' y realyddion. Yn ei phwyslais ar yr abswrdd y mae'r nofel hon yn fwyaf realistig.'

'Ond gellid honni mai un o'i chocynnau dychan mwyaf parhaus yw'r tueddiad amlwg ymhlith y Cymry Cymraeg ... i ffafrio eu cyd-Gymry Cymraeg gan anwybyddu eu ffaeledigrwydd, fel petai siarad yr iaith ei hun y rhinwedd moesol goruchaf.'

Mae'r adolygydd yn nodi e.e. Mal yn llwyddo i dwyllo er ei bod yn gwbl amlwg y dylid ei amau o fod wedi lladd y ferch; Mal yn gweld bai ar Toni am nad yw'n siarad Cymraeg cywir, nid am ei bod yn byw bywyd gwastraffus; Tanwen yn rhoi lloches i Camel am fod ei arwydd yn ddwyieithog; Lois yn rhoi sioc am mai Cymraes yw hi; neb yn amau Pwdin Mawr a Mama Losin am eu bod yn Gymry.

'Yn wir buasai'r erchyllterau wedi parhau lawer yn hwy oni bai i Maldwyn Taflun Lewis ddiplannu, ac i Hedd ac Ellis Wynne ei adnabod am ei fod yn aelod blaenllaw o sefydliadau ieithyddol a llenyddol y Gymru Gymraeg.'

Sylwadau ar Arddull

'Y mae'r awdur yn feistr ar ddeialog lithrig. Gall hefyd greu disgrifiadau manwl gan ddadansoddi profiadau yn wrthrychol, wyddonol, yn null nofel seicolegol yr ugeinfed ganrif.'

'Y mae ymson llif-yr-ymwybod Ellis ... ac yn arbennig ymson gorawenus ei frawd, Hedd, ... yn gampweithiau o sgrifennu awengar, a realistig hefyd.'

'Un o ragoriaethau crefft Mihangel Morgan yw bod ei ryddiaith mor ddychmygus nes bod ei darllen yn fwynhad.'